# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 28 TACHWEDD 2023 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 28 NOVEMBER 2023 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion erail l.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023.

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5 MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 2, 2023/24** (Tudalennau 21 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**6 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2023/24** (Tudalennau 35 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7 MONITRO CYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2023/24** (Tudalennau 55 - 70)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 2, 2023/24** (Tudalennau 71 - 84)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9 SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2024/25** (Tudalennau 85 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**10** **<u>STRATEGAETH TAI GWAG 2023-2028</u>** (Tudalennau 91 - 112)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Tai.

**11** **<u>PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN – DIWEDDARIAD AR BARATOI'R ACHOS BUSNES AMLINELLOL</u>** (Tudalennau 113 - 130)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**12** **<u>CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD</u>** (Tudalennau 131 - 132)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

**13** **<u>PORTHLADD RHYDD - TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT A GWEITHREDOL</u>** (Tudalennau 133 - 228)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Rheolwr Rhaglen (EB),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu (FT). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Gwilym O Jones, Robert Ll Jones, Liz Wood. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Nid oedd dim i'w adrodd.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023 yn gywir.**

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd, i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Tachwedd 2023 a Mehefin 2024.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn â'r newidiadau i'r Flaen Raglen Waith a nodwyd y canlynol :-

- Eitem 8 – (Porthladd Rhydd – Diweddariad) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023.
- Eitem 9 – (Porthladd Rhydd – Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol [eitem gyfrinachol]) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023.
- Eitem 13 – (Rheoli Trysorlys 2023/2024 – adolygiad 6 mis) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 23 Ionawr 2024.
- Eitem 14 – (Cyllideb Refeniw Ddrafft 2024/2025) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 23 Ionawr 2024.
- Eitem 15 – (Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2024/2025) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 23 Ionawr 2024.
- Eitem 16 – (Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2024/2025) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 23 Ionawr 2024.
- Eitem 17 – (Ffioedd a Thaliadau 2024/25) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 23 Ionawr 2024.
- Eitem 18 – (Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaeth Tai 2024/2025) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 23 Ionawr 2024.
- Eitem 20 – (Moderneiddio Cyfleoedd Dydd: Anableddau Dysgu [Ardal Caergybi]) sef eitem a symudwyd o gyfarfod 28 Tachwedd 2023 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 23 Ionawr 2024.
- Eitem 22 – (Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2024/2025) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024.
- Eitem 23 – (Cartrefi Henoed yr Awdurdod Lleol – Gosod y Tâl Safonol ar gyfer 2024/2025) sef eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024.

**Eitemau a drefnwyd ar gyfer cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith (Cyllideb) – Mawrth 2024 (dyddiad i'w gadarnhau)**

Eitem 28 – (Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2023/24) sef eitem a symudwyd o'r cyfarfod i'w gynnal ar 20 Chwefror 2024.
Eitem 29 – (Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2023/2024) sef eitem a symudwyd o'r cyfarfod i'w gynnal ar 20 Chwefror 2024.
Eitem 30 – (Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2023/2024) sef eitem a symudwyd o'r cyfarfod i'w gynnal ar 20 Chwefror 2024.
Eitem 31 – Cyllideb Refeniw 2024/2025 – eitem newydd
Eitem 32 – Cyllideb Gyfalaf 2024/2025 – eitem newydd

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith a ddiweddarwyd ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2023 i Fehefin 2024 gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.**

**5** **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2022/2023 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, a dywedodd bod rhaid i'r Cyngor, yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, lunio adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o'i weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Cod) a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus). Mae'r adroddiad yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n amlygu cydymffurfiaeth y Cyngor â pholisïau a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn y Strategaeth Rheoli Trysorlys a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd ariannol wedi newid yn gyfan gwbl ers cyhoeddi'r Strategaeth a gwelwyd cynnydd sylweddol mewn chwyddiant a chyfraddau llog, ac mae hynny wedi effeithio ar gost benthyca ac enillion ar fuddsoddiadau. Nododd fod y Cyngor wedi benthyca £20.3m yn llai nag y gallai ei fenthyca yn ystod 2022/2023 trwy ddefnyddio balansau arian parod y Cyngor ei hun i ariannu gwariant cyfalaf. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen i fenthyca arian cyfalaf wedi'i gyllido'n llawn gan ddyled benthyciadau gan fod arian a oedd yn cynnal cronfeydd, balansau a llif arian y Cyngor wedi cael ei ddefnyddio fel mesur tymor byr. Roedd dyledion allanol £1.5m yn is yn ystod y flwyddyn, ac roedd balans y dyledion yn £123.8m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. I'r gwrthwyneb, roedd gostyngiad o £3m, i £59.8m, ym malansau cronfeydd a darpariaethau. Roedd yr holl benderfyniadau rheoli trysorlys a wnaed yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth Rheoli Trysorlys a ni thorrwyd yr un o'r dangosyddion darbodus yn ystod y flwyddyn. Ychwanegodd fod y Polisi MRP (Darpariaeth Isafswm Refeniw) wedi cael ei adolygu yn ystod 2022/2023 ac arweiniodd hynny, ynghyd ag enillion gwell na'r disgwyl ar fuddsoddiadau, at ostyngiad sylweddol yn y costau refeniw.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau yn rhai dros dro hyd nes bod yr archwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon 2022/23 wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo; adroddir fel y bo'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad;**
- **Nodi dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2022/23 a gynhwysir yn yr adroddiad;**
- **Anfon Adroddiad yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2022/2023 ymlaen i'r Cyngor Llawn heb wneud unrhyw sylwadau pellach.**

**6** **RHEOLI TRYSORLYS - CHWARTER 1, 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi'r gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn ystod Chwarter 1 2023/24 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, a dywedodd bod rhaid adrodd ar y dangosyddion darbodus bob chwarter bellach, yn hytrach na dwywaith y flwyddyn, yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA 2021. Yn dilyn trafodaethau rhwng yr Aelod Portffolio a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, cytunwyd y byddai'r Aelod Portffolio Cyllid yn ystyried a derbyn adroddiad chwarterol ar gyfer Chwarter 1 a Chwarter 3 cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn unig, ac y byddai'r adroddiad canol blwyddyn a'r adroddiad blynyddol yn unig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod balansau mewnol yn parhau i ariannu gwariant cyfalaf a chan fod cyfraddau llog yn uchel, nid yw'n ddarbodus ymrwymo i fenthyciadau tymor hir pe cyfyd yr angen er mwyn osgoi cyfraddau llog uchel. Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn parhau i fod yn uchel am beth amser. Nododd fod y cronfeydd ariannol yn gostwng ac, ar ddiwedd Chwarter 1, roedd y cyfanswm a fuddsoddwyd yn £53.097m, fel y dangosir yn Nhabl 5.6. Rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Mehefin 2023, roedd yr enillion ar y buddsoddiadau hyn yn £0.457m ac mae disgwyl y bydd cyfanswm y llog a dderbynnir yn 2023/2024 yn £1.287m. Serch hynny, mae balansau arian parod yn gostwng wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi felly ni fydd yn ymarferol adnewyddu'r holl fuddsoddiadau hyn pan fyddant yn aeddfedu. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/2024.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiad, y gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar 30 Mehefin 2023;**
- **Bod adroddiadau Rheoli Trysorlys Chwarter 1 a Chwarter 3 yn cael eu hadolygu a'u derbyn gan yr Aelod Portffolio Cyllid o hyn ymlaen a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn unig. Bydd yr adroddiadau canol blwyddyn yn dilyn yr un broses h.y. adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.**

## 7 STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD 2023-2028

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2023 – 2028 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a dywedodd fod rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021,

lunio Strategaeth Cyfranogi sy'n nodi sut y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Nod y strategaeth yw annog pobl i gymryd rhan ym musnes y Cyngor ac adeiladu ar y llwyddiant y mae'r Cyngor wedi'i gael wrth ymgysylltu â thrigolion, fel sy'n cael ei gydnabod gan Archwilio Cymru. Mae enghreifftiau o gyfranogi wedi'u cynnwys yn y Strategaeth a'r adroddiad. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu gyda swyddogion y Cyngor dros gyfnod o bedair wythnos. Roedd cyfran uchel o'r swyddogion a ymatebodd yn cytuno â chynnwys y Strategaeth a dengys hyn fod cefnogaeth i'r Strategaeth ac mae'n fwriad adolygu'r Strategaeth yn rheolaidd. Mae'r angen i wella lefelau cyfranogiad ymysg plant a phobl ifanc ym mhenderfyniadau'r Cyngor yn cael ei gydnabod, yn ogystal ag edrych ar ddulliau newydd o gasglu a chyflwyno adborth yn ddigidol ac ystyried ffyrdd o adrodd ar lwyddiant/diffyg llwyddiant o ran cyfranogi. Yn dilyn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith, nododd y byddai'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llawn ei chymeradwyo ar 26 Hydref 2023.

Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid y bu gwaith yn mynd rhagddo ers nifer o flynyddoedd mewn perthyna â chyfranogiad y cyhoedd ac annog preswylwyr i ymateb i brosesau ymgynghori o fewn y Cyngor. Nododd y bydd y Strategaeth yn darparu llwyfan a sylfaen gref i'r Awdurdod wella cyfranogiad y cyhoedd. Ategodd y Rheolwr Rhaglen fod y Strategaeth yn ffurfioli llawer o'r gwaith sy'n digwydd yn barod a bod y Strategaeth yn sylfaen gref y gellir adeiladu arni i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y dyfodol.

Cafwyd adborth gan y Cynghorydd Gwilym O Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor ar 17 Hydref 2023 pan graffwyd ar yr adroddiad ar y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2023-2028. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor hwnnw gwestiynau ynghylch sut a pham y mae angen i'r Cyngor lunio strategaeth gyfranogi a sut fydd y Strategaeth yn cynorthwyo'r Cyngor i wireddu Cynllun y Cyngor. Gofynnwyd cwestiynau pellach am y prosesau a'r trefniadau a roddir ar waith i sicrhau fod yr Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Strategaeth, yn ogystal ag unrhyw oblygiadau ariannol. Cyfeiriwyd hefyd at gyfraniad cymunedau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned wrth hyrwyddo ymgysylltu. Cadarnhaodd y Cynghorydd Gwilym O Jones fod y Pwyllgor, ar ôl trafod y mater, wedi cytuno i nodi'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ac argymell i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn y dylid mabwysiadu'r Strategaeth. Roedd y Pwyllgor hefyd yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn y dylid awdurdodi'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio – Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, i baratoi'r ddogfen derfynol yn unol â'r diwyg corfforaethol cyn cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cyngor. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid mabwysiadu gweithred yn nodi y dylai'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned drafod rôl, pwrpas a chyfranogiad Cynghorau Tref a Chymuned wrth hyrwyddo ymgysylltu a chyfranogiad y cyhoedd pan fydd y Cyngor yn ymgynghori ar wahanol faterion.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod templed yn cael ei baratoi ar gyfer y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a rhaid i'r fersiwn Gymraeg a Saesneg fod yn gyson. Nododd fod y ddeddfwriaeth newydd yn golygu bod rhaid sefydlu rhaglen waith newydd, a thechnoleg ddigidol yw'r llwyfan a ffefrir i roi cyfle i bobl ymgysylltu, ymgynghori a chael mwy o breswylwyr lleol i ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus.

Serch hynny, dylid rhoi cyfle hefyd i bobl nad ydynt yn dymuno defnyddio'r llwyfan digidol.

Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith ei bod yn hanfodol ymgysylltu â phreswylwyr wrth ymgynghori ar wahanol faterion. Nodwyd fod ymgynghori a derbyn ymatebion gan bobl ifanc yn bwysig.

Dywedodd yr Arweinydd fod enghreifftiau lle gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau, yn enwedig pan ymgynghorwyd ar Gynllun y Cyngor. Nododd fod y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth am waith y Cyngor. Cyfeiriodd at wirfoddolwyr mewn cymunedau lleol sy'n hyrwyddo ac yn rhoi cyfle i breswylwyr a chyfeiriodd hefyd at yr ymgysylltu â Fforymau Ysgolion a dywedodd fod llais pobl ifanc yn holl bwysig mewn unrhyw fath o ymgynghoriad cyhoeddus. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned hefyd gan ddweud fod trafodaethau'n cael eu cynnal yn y cyfarfodydd chwarterol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd;**
- **Argymell i'r Cyngor llawn y dylid mabwysiadu'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, a'i bod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd a bydd yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma;**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio – Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer i baratoi'r ddogfen derfynol ar y fformat corfforaethol cyn cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cyngor.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50 a.m.

**Y CYNGHORYDD LLINOS MEDI**
**CADEIRYDD**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 28 Tachwedd 2023 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr 2023** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| 2 | **Cynllun Bioamrywiaeth – Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| 3 | **Gwahardd Anifeiliaid fel gwobrau** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| 4 | **Achos Busnes Amlinellol a Strategol – Tai Gofal Ychwanegol Aethwy** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Alun Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2024/25** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| | | | | **Ionawr 2024** | | | |
| 6 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |
| 7 | **Rheoli Trysorlys 2023/24 – Adolygiad 6 mis** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |
| 8 | **Cyllideb Refeniw drafft 2024/25**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>06.12.23 a 11.01.24<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |

Tudalen 12

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2024/25** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |
| 10 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2024/25** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |
| 11 | **Ffioedd a Thaliadau 2024/25** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |
| 12 | **Strategaeth Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024<br>(dyddiad i'w gadarnhau) | |
| 13 | **Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi)** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 16.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Chwefror 2024** | | | | | | |
| 14 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 15 | **Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |
| 16 | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hŷn – Pennu Ffi Safonol 2024/25** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 17 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 18 | **Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | **Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dydd** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 06.02.2024 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 20 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022/23 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028** | | Busnes y Cyngor | Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | Cyngor Llawn 7 Mawrth 2024 |
| **Mawrth 2024** | | | | | | | |
| **Cyfarfod arbennig (Cyllideb) – dyddiad i'w gytuno** | | | | | | | |
| 21 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24 | Pwyllgor Gwaith | |
| 22 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24 | Pwyllgor Gwaith | |

Tudalen 15

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24 | Pwyllgor Gwaith | |
| 24 | **Cyllideb Refeniw 2024/25 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 27.02.24 | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |
| 25 | **Cyllideb Gyfalaf 2024/25**<br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 15.02.24<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 27.02.24 | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn<br><br>7 Mawrth 2024 |
| | | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| 28 | **Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024 – 2054** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| 29 | **Asesiad y Farchnad Dai Leol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| **Ebrill 2024** | | | | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ebrill 2024 | |
| **Mai 2024** | | | | | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mehefin 2024** | | | |
| 32 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Dafydd Roberts | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2024 | |
| | | | | | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |
| 34 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |
| 35 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |

Tudalen 18

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2023 – Gorffennaf 2024

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 36 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |
| 37 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2024 | |
| | | | | **Gorffennaf 2024** | | | |
| 38 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2024 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 28 Tachwedd 2023 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2 (2023/24) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E Jones |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|

**1.1** Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.2** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Y dangosyddion NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a
- Mae pob un o'r dangosyddion priffyrdd yn uwch na'r targed;
- Y dangosyddion cynllunio (34 a 36).

**1.3** Serch hynny, gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

**1.4** Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

**1.4.1** Cwynion Cyffredinol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen gan nad oes data ar gael ar gyfer Ch2;
**1.4.2** Cyfartaledd y diwrnodau a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl;
**1.4.3** Canran Cyfartaledd y dyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod);
**1.4.4** Canran yr apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod.

**1.5** Gofynnir i'r pwyllgor derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllun y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| | penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 21/11. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 2 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2023/24 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2023 ac a dderbyniwyd ganddo.)<br>• Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2023/24)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn nodi anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

1.2 Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor sydd yn sylfaen i gyflawni Cynllun y Cyngor. Mae'n darparu gwybodaeth er mwyn galluogi'r Cyngor i reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, felly, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

1.3 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd Ch2 a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n monitro perfformiad yn cyd-fynd â thri amcan llesiant presennol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau bob pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithio â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd fydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).

2.3 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn.

2.4 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer pob adran o'r cerdyn sgorio isod, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol y Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth


- Melyn – o fewn 5% i’r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Ni ellir dadansoddi perfformiad y dangosyddion iechyd corfforaethol yn llawn ar gyfer y chwarter hwn. Er hynny, mae'r mwyafrif (67%) o ddangosyddion lle mae data ar gael yn erbyn y targedau sy’n cael eu monitro yn yr adran hon yn perfformio’n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nid oes data ar gael ar gyfer nifer o’r dangosyddion ar gyfer y chwarter hwn. Mae rhagor o wybodaeth isod yn nodi pam fod data ar goll, ynghyd â rhai o’r uchafbwyntiau:

3.2 Mewn perthynas â Rheoli Cwynion Cwsmeriaid, oherwydd anawsterau gweithredol yn y tîm sy’n casglu’r ystadegau ar ran y Cyngor, ni allwn adrodd ar Gwynion Cwsmeriaid na cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y chwarter (nid yw hyn yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod y trefniadau adrodd yn wahanol). Er nad yw’r ystadegau sy’n cael eu casglu ar ran y Cyngor gennym, mae’r gwasanaethau’n parhau i fonitro Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn union fel y buont yn ei wneud yn y gorffennol ac mae’r Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli’r mater. Nid oes unrhyw bryderon ynglŷn â Chwynion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd.

3.3 Ar ddiwedd Ch2 mae’r Cyngor yn GOCH yn erbyn ei darged, gyda 4.21 diwrnod wedi’u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 3.81 diwrnod. Mae’r perfformiad hwn wedi gostwng ychydig o gymharu â’r un cyfnod yn ystod y pedair blynedd diwethaf, yn bennaf oherwydd salwch tymor hir sydd yn cyfrif am 62% o absenoldebau yn Ch2.




3.4 Ar hyn o bryd, ar ddiwedd yr ail chwarter, mae’r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld gorwariant o £0.368m yng nghyllideb y cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024. Roedd y sefyllfa ychydig yn well o gymharu â’r rhagolwg ar ddiwedd Ch1, er bod y cyngor yn parhau i ragweld gorwariant

fydd yn cael ei ariannu o'r balansau cyffredinol. Mae Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr yn ymwybodol o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol a phwysigrwydd ceisio cadw gwariant o fewn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Er na roddwyd cyfarwyddyd ffurfiol mewn perthynas â'r angen i gymryd camau i leihau gwariant (e.e. peidio â recriwtio staff), bydd yr holl wariant yn ystod y misoedd nesaf yn cael ei graffu i gyfyngu gwariant i wariant hanfodol yn unig a bydd swyddi gweigion yn cael eu hadolygu cyn penderfynu a ddylid eu hysbysebu.

3.5 Mae nifer o faterion a phryderon a allai newid y rhagolwg yn ystod ail hanner y flwyddyn. Wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi, bydd effeithiau'r materion a'r pryderon a nodir isod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau monitro wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

3.5.1 Effaith y dyfarniad cyflog terfynol ar gyfer staff NJC ar gostau, er y disgwylir i'r gost ychwanegol derfynol fod o fewn y ddarpariaeth ychwanegol yn y gyllideb.

3.5.2 Mae'r sefyllfa o ran Gofal Cymdeithasol yn destun pryder arbennig a rhagwelir gorwariant o £2.058m yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Er hynny, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio gan fod grantiau a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y gorwariant. Heb y cyllid ychwanegol hwn, byddai oddeutu £3.5m o orwariant.

3.5.3 Yn y pendraw, bydd yr argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.6 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2023/24 yn dylanwadu hefyd ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2024/25 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd a welwyd mewn costau yn 2023/24 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor a bydd hyn yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2024/25. Bydd rheolwyr yn cadw llygad gofalus ar y sefyllfa ariannol yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol ac efallai y bydd angen rhoi mesurau ar waith i arbed costau yn 2023/24 er mwyn cynnal lefel bresennol y cronfeydd clustnodedig a'r balansau cyffredinol.

3.7 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £4.099m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25 a bydd yn cael ei gynnwys wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

3.8 Mae gwybodaeth bellach am reolaeth ariannol i'w weld yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 2', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 2' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 2' fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd.

3.9 Mae canlyniadau'r dangosyddion ar gyfer yr adran hon yn rhoi sicrwydd rhesymol fod y Cyngor yn rheoli ei bobl, ei gwsmeriaid a chyllid mewn modd sy'n ddisgwyliedig gan Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Chwarter 2 mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (91%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae tri dangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Chwarter 2 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.

4.2 Ar ddiwedd Chwarter 2, mae perfformiad ein hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosydd o dan yr amcan hwn yn tanberfformio ar hyn o bryd.

4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd o dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.3.1 Dangosyddion y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS) (9 a 10) – lle mae'r ddau ddangosydd yn wyrdd yn erbyn eu targedau.

4.3.2 Nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd (dangosydd 11) – gyda 40 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o gymharu â tharged o 25. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 40 llai o dai gwag yn ein cymunedau.


4.4 Ar ddiwedd y chwarter, mae dau ddangosydd yn tanberfformio o dan yr ail amcan llesiant**, Amcan 2**, lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

4.4.1 Dangosydd 28 – Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 193 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod.

Nid yw'r perfformiad cystal â'r 160 diwrnod a gofnodwyd yn Chwarter 1 na'r 173 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer Chwarter 2 2022/23. Mae'r rhesymau dros y dirywiad ym mherfformiad y dangosydd hwn yn cynnwys:

- Anhawster i gael mynediad i eiddo oherwydd y pryderon sydd gan gleientiaid yn dilyn y pandemig coronafeirws;
- Anawsterau wrth ddod o hyd i gontractwyr i gyflawni'r gwaith. Ar hyn o bryd dim ond 6 contractwr ar yr Ynys sy'n gosod yr addasiadau;

- Addasiadau sy’n cymryd mwy o amser i’w cwblhau;
- Newidiadau yn y meini prawf cymhwyster sydd wedi arwain at fwy o alw am Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl.




4.4.2 Dangosydd 29 – Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio unedau sy’n anodd eu gosod) – sydd yn goch gyda pherfformiad o 48 diwrnod yn erbyn targed o 40 diwrnod. Mae hyn yn ostyngiad ar y 30 diwrnod a welwyd ar gyfer yr un cyfnod yn 2022/23 a’r 35 diwrnod yn 2021/22.

Er hynny, mae perfformiad yn gysylltiedig â’r dangosydd hwn 4 diwrnod yn well na’r perfformiad ar ddiwedd Chwarter 1 (52 diwrnod ar gyfartaledd). Mae’r rhesymau a nodwyd yn yr Adroddiad Monitro’r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 1 yn parhau i fod yn wir ac mae sicrhau gwelliant pellach yn y dangosydd hwn yn dibynnu ar y gwaith sydd angen ei wneud ar eiddo sy’n cael eu dychwelyd i sicrhau eu bod yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC). Bydd y dangosydd hwn yn gwella unwaith y bydd nifer yr eiddo y mae angen gwneud gwaith sylweddol arnynt yn gostwng gan y bydd hyn yn cynyddu capasiti i gwblhau eiddo.

4.5 Mae rhai o’r enghreifftiau o berfformiad da a welwyd ar gyfer yr amcan llesiant hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.5.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16, 18 a 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ac mae’r dangosydd arall (Dangosydd 17) yn felyn ar gyfer y chwarter. Mae hyn yn galonogol mewn cyfnod lle mae poblogaeth sy’n heneiddio ac anawsterau i recriwtio staff yn golygu fod y Gwasanaeth yn parhau i fod o dan bwysau.

4.5.2 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Plant (Dangosyddion 20-25) i gyd yn Wyrdd heblaw am un sydd o fewn 5% i’w darged ac yn Felyn ar y cerdyn sgorio. Mae’r perfformiad yn arbennig o dda o ystyried y cynnydd sylweddol yn yr atgyfeiriadau sy’n dod i’r gwasanaeth a’r pwysau ychwanegol oherwydd yr argyfwng costau byw.


4.5.3 Mae'r Dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 + 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai wedi perfformio'n dda hefyd, ac mae'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter ac mae'r perfformiad yn well na'r perfformiad yn Chwarter 1.

4.6 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn dda hefyd, gyda 90% (9 o'r 10 dangosydd) yn uwch na'r targed.

4.7 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

4.7.1 Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31 – 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter cyntaf. Roedd 95% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân ac mae'n galonogol nodi fod sbwriel sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei glirio o fewn diwrnod. Roedd canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 67.77% ar gyfer y chwarter ac mae'n argoeli'n dda o ran perfformio'n well na'r targed blynyddol o 64%.

4.7.2 Mae'r tri dangosydd priffyrdd sy'n ymwneud ag arolygon o gyflwr ffyrdd A, B ac C yr Ynys (dangosyddion 38 - 40) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae dau o'r tri, sy'n gysylltiedig â ffyrdd dosbarth B ac C, wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn. Gwelwyd ychydig o ostyngiad yn y perfformiad yn gysylltiedig â ffyrdd dosbarth A, o 2.6% i 2.7%. Mae hwn yn berfformiad cadarnhaol o safbwynt trigolion yr ynys ac ymwelwyr fel ei gilydd, yn enwedig mewn cyfnod lle mae mwy o bwysau ar y rhwydwaith ffyrdd oherwydd bod mwy o bobl yn ymweld â'r ynys.





4.7.3 Mae perfformiad dau o'r tri dangosydd cynllunio (dangosyddion 35 a 37) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau, ac maent yn uwch na pherfformiad y blynyddoedd blaenorol. Mae'r ceisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn amser (dangosydd 35) yn

parhau i berfformio'n dda iawn gyda 95% o'r ceisiadau wedi cael eu penderfynu ar ddiwedd Chwarter 2. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad o 91% ar ddiwedd 22/23 a 79% ar ddiwedd 2021/22 a 2020/21.

4.8 Yr unig ddangosydd sydd yn tanberfformio yn ystod y chwarter hwn yw:

4.8.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 40% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn well na'r perfformiad ar ddiwedd Chwarter 1 pan wrthodwyd 0%, ac ar ddiwedd Chwarter 2 2022/23 pan wrthodwyd 36%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio â nifer fechan o achosion. O'r tair apêl ar gyfer y chwarter hwn, cafodd dau eu gwrthod. O gyfuno hyn â chanlyniadau'r chwarter cyntaf, mae'n golygu fod dau allan o bum apêl wedi cael eu gwrthod. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apeliadau ar gyfer ceisiadau tebyg er mwyn gweld a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n galw am ddehongliad gwahanol o'n polisïau. Bwriedir cynnal hyfforddiant ar apeliadau cynllunio ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio gan fod rhai o'r apeliadau a gadarnhawyd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio a wrthodwyd gan y pwyllgor yn groes i argymhellion swyddogion.




## 5. CASGLIAD

5.1 Mae'n galonogol nodi bod 86% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'u targed neu o fewn 5% i'r targedau ar gyfer y chwarter.

5.2 Mae'r adroddiad yn amlygu rhai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Y dangosyddion NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;

- Dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a
- Mae pob un o'r dangosyddion priffyrdd yn uwch na'r targed;
- Y dangosyddion cynllunio (34 a 36).

5.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai meysydd sy'n tanberfformio yn erbyn eu targedau. Amlygir y rhain yn 6.1 isod.

## 6. ARGYMHELLION

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd sydd wedi gwella a'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Y meysydd a argymhellir yw:

6.1.1 Cwynion Cyffredinol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen gan nad oes data ar gael ar gyfer Ch2;
6.1.2 Cyfartaledd y diwrnodau a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl;
6.1.3 Cyfartaledd y dyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod);
6.1.4 Canran yr apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod.

## 7. RHESTR TERMAU

7.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

7.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
7.1.2 Ch1 – Chwarter 1
7.1.3 Ch2 – Chwarter 2
7.1.4 Ch3 – Chwarter 3
7.1.5 Ch4 – Chwarter 4
7.1.6 Statws CAG – Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed
7.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
7.1.8 FTE – Cyfwerth ag Amser Llawn
7.1.9 FOI – Rhyddid Gwybodaeth
7.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
7.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
7.1.12 DTL – Anodd eu Gosod
7.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
7.1.14 CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
7.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2022/23

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch / Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | | 92.1% | | | 91.69% | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | | 87.2% | | | 85.22% | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 3.20% | 2.60% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | | | | | | 100% | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch3) | | | | | | 68% | 68% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch4) | | | | | | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | ↓ | 223k | 234k | 535k | 539k | 388k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 62% | 50% | 50% | 72% | 47.5% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 83% | 80% | 80% | 78% | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 40 | 25 | 50 | 80 | 91 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Melyn / Yellow | → | 0 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 18 | 18 | 18 | 16.61 | 13.89 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) | | | | | | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annib** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch4) | | | | | | | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.03% | 90% | 90% | 91.69% | 94.78% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Melyn / Yellow | ↓ | 61.54% | 62% | 62% | 64.71% | 64.85% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 15.3 | 19 | 19 | 16.74 | 14.33 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.30% | 93% | 93% | 98.10% | 96.10% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↑ | 88.52% | 90% | 90% | 86.75% | 87.15% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 3.47% | 5.00% | 10% | 6.15% | 9.79% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 14.52% | 15% | 15% | 14.35% | 5.74% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 253 | 270 | 270 | 306 | 318 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 99.24% | 95% | 95% | 98.31% | 99.10% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 92.53% | 90% | 90% | 93.83% | 85.99% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 95% | 80% | 80% | 89.53% | 80.95% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 98% | 85% | 85% | 98.45% | 92.00% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Coch / Red | ↓ | 193 | 170 | 170 | 193 | 172.3 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Ambr / Amber | ↑ | 48 | 40 | 40 | 35.8 | 28.7 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Gwyrdd / Green | ↑ | 1.58% | 1.70% | 1.70% | 1.83% | 1.66% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | → | 95% | 95% | 95% | 96% | 95.50% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | ↓ | 67.77% | 66% | 64% | 63.47% | 62.39% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↓ | 0.3 | 1 | 1 | 1 | 0.25 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | → | 106kg | 110kg | 220kg | 207kg | 223kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↓ | 95% | 90% | 90% | 91% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↑ | 40% | 65% | 65% | 47% | 50% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↑ | 90% | 80% | 80% | 87% | 84% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 2.7% | 3% | 3% | 2.6% | 3% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.3% | 4% | 4% | 2.6% | 2.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 7.5% | 9% | 9% | 7.6% | 8.20% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | | - | | | 515.07 | 486.85 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | ↑ | 391,910 | | | 1,728,920 | 1,524,961 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | | - | | | 790,899 | 786,247 |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | - | | | +6% | + 26% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol     Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth

Melyn - o fewn 5% o'r targed     Gwyrdd - ar darged neu'n uwch     Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2023/24

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | - | 33 | 40 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | → | 2 | - | 4 | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 1* | - | 13 | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | | | - | 80% | 82% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 80% | 70% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | → | 6 | - | 27 | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | - | - | 321 | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | | 113* | - | 495 | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | | | - | 80% | 72% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | ↑ | 10k | - | 59.5k | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | ↑ | 19k | - | 36k | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | ↑ | 11.5k | - | 26k | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | ↑ | 4.5k | - | 9.5k | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | ↑ | 108k | - | 100k | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cygor | | ↑ | 200k | - | 327k | - | - |

*Dim yn cynnwys gwybodaeth corfforaethol

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2376 | - | 2288 | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↓ | 4.21 | 3.81 | 9.15 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 1.58 | - | 4.54 | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 2.63 | - | 4.61 | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | - | - | 8% | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Ambr / Amber | ↑ | £170,789,000 | | | £171,157,000 | 0.28% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | ↓ | £40,030,000 | | | £36,431,000 | -8.99% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£6,717,659 | -£7,344,745 | 9.33% | | |
| 05) Balansau cyffredinol diwedd y flwyddyn a ragwelir | | ↑ | | | | -£11,029,890 | |
| 06) Chost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidebwyd | Gwyrdd / Green | → | 2.34% | | | 2.33% | -0.01% |
| 06) Nifer o Wasanaethau rhagwelir yn gorwario mwy na 5% o'i cyllideb | | ↑ | | | | 1 | |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | | 98.00% | | | |
| 08) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Ambr / Amber | ↑ | | 94.10% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | | 98.5% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | | 97.1% | | | |

## Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **28 TACHWEDD 2023** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2023/24** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BETHAN HUGHES OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

### A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

1. Ar 9 Mawrth 2023, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2023/24 gyda gwariant net y gwasanaethau o £174.569m, i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol, yn ogystal â £3.780m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.109m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau na chynlluniwyd ar eu cyfer. Gosodwyd cyllideb o £2.893m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor, sef cynnydd o £0.943m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda'r cynnydd o 5.00% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

2. Fel y llynedd, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion.

   Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, 30 Medi 2023. Mae'n cynnwys crynodeb o'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan hefyd. Dylid nodi fod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn anodd ar ddiwedd chwarter 2, yn enwedig gan y gall misoedd y gaeaf effeithio ar gostau rhai gwasanaethau (yr Henoed a Phriffyrdd yw'r gwasanaethau sy'n cael eu heffeithio fwyaf). Gall y sefyllfa newid yn sylweddol, felly, wrth i weddill y flwyddyn fynd rhagddi, a chaiff y rhagolwg ei ddiweddaru ar ddiwedd chwarter 3 pan ddaw effaith y gaeaf yn fwy amlwg.

3. Derbyniwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer staff NJC gan 2 o'r 3 Undeb ar 2 Tachwedd 2023, a bydd y dyfarniad cyflog yn cael ei ôl-ddyddio i Ebrill 2023. Nid yw'r costau ychwanegol hyn wedi'u cynnwys yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol eto ond, gan nad yw'r dyfarniad cyflog yn wahanol i'r swm a gynigiwyd gan y Cyflogwyr ym mis Mawrth 2023, bydd y cynnydd ar gyfer chwyddiant a gynhwyswyd yng nghyllidebau Gwasanaethau ar gyfer 2023/24, ynghyd â'r swm o £2m sy'n cael ei ddal mewn cyllideb wrth gefn, yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol ac, fel y cyfryw, ni fydd yn cael effaith sylweddol ar y ffigyrau a ragwelwyd. Bydd y gyllideb wrth gefn yn cael ei dyrannu yn awr i gyllidebau gwasanaeth a chaiff yr addasiadau hyn eu hadlewyrchu yn yr adroddiad ar gyfer chwarter 3.

4. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2023/24, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £0.364m. Mae hyn yn cyfateb i 0.21% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2023/24.

5. Argymhellir:-

   **(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2023/24;
   **(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2023/24, y manylir arnynt yn Atodiad C;
   **(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2023/24 yn Atodiadau CH a D.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2023/24 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2023, ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi adolygu'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 2 yn ei gyfarfod ar 26 Hydref 2023. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F – Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2023/24
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2023/24
- Atodiad C – Crynodeb o Gyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2023/24
- Atodiad CH – Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2023/24
- Atodiad D – Gwybodaeth ynglŷn á monitro Ymgynghorwyr 2023/24

**Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2023/24 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2023 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2023).

**ATODIAD A**

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £19.637m a chronfeydd wrth gefn ysgolion gwerth £6.716m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2022/23 at falans cyffredinol o £13.967m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hyn yn well na'r balans agoriadol o £12.278m ar gyfer y flwyddyn flaenorol, sef 2021/22. Cyfrannodd y tanwariant drafft gwerth £1.212m at hyn, ynghyd â symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oedd galw amdanynt. Gallai'r sefyllfa hon newid, serch hynny, os gwneir unrhyw addasiadau yn dilyn yr archwiliad.

Mae sefyllfa'r balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol Drafft | (13.967) | Cronfa wrth gefn gyffredinol ddrafft wedi'i harchwilio ar 31 Mawrth 2023. |
| Gosod Cyllideb 2023/24 cytunwyd Mawrth 2023 | 3.780 | |
| Ad-daliad Trethi Busnes Oriel Ynys Môn | (1.207) | Mae'r Cyngor wedi apelio'n llwyddiannus yn erbyn Gwerth Trethadwy Oriel Ynys Môn, yn dyddio'n ôl i 2010. Mae hyn yn golygu fod y Cyngor wedi derbyn ad-daliad am y rhan fwyaf o drethi busnes a dalwyd ers 2010. |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **(11.394)** | **Fel y nodwyd uchod, gallai hyn newid os gwneir unrhyw newidiadau yn dilyn yr archwiliad.** |

Yr alldro a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2023/24 yw gorwariant amcangyfrifiedig o £0.364m. Os yw'r rhagolwg hwn yn gywir, byddai Balans Cyffredinol y Cyngor yn gostwng i £11.03m erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae hyn yn cymharu ag isafswm o £8.73m, sef 5% o gyllideb refeniw net 2023/24.

Gosodwyd cyllideb 2023/24 cyn cytuno ar ddyfarniad cyflog staff nad ydynt yn athrawon ar gyfer 2023/24. Pan gyhoeddwyd yr adroddiad hwn, roedd dyfarniad cyflog staff nad ydynt yn athrawon ar gyfer 2023/24 wedi'i gytuno. Wrth osod y gyllideb, roedd swm wrth gefn o £2m wedi'i gynnwys yn y gyllideb i gwrdd â'r gwahaniaeth posib yn y swm a ganiatawyd yn y gyllideb ddrafft a chynnig tâl y Cyflogwr. Yn ogystal, crëwyd cronfa wrth gefn glustnodedig gwerth £3.177m i ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chostau unrhyw ddyfarniad cyflog a fyddai'n uwch na'r swm a osodwyd yn y gyllideb, a gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn hon i gwrdd ag unrhyw gynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant uchel.

Os nad yw'r gronfa wrth gefn yn ddigonol, mae'n debygol y bydd rhaid i'r Cyngor gynyddu'r gorwariant a ragwelir yn ei gyllideb refeniw net yn ystod 2023/24, a bydd rhaid cyllido unrhyw orwariant o falansau cyffredinol y Cyngor. Ar sail y rhagolwg presennol, bydd y gronfa wrth gefn glustnodedig yn ddigon i gyllido'r gorwariant a ragwelir ac ni fydd rhaid cyllido'r gost o'r balansau cyffredinol.

### 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth a rhagolwg o'r alldro ar gyfer pob gwasanaeth wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £0.574m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2024. Mae tanwariant o £0.101m yn cael ei amcangyfrif ar gyfer Cyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir y bydd incwm o gasglu'r Dreth Gyngor safonol £0.216m yn llai na'r gyllideb, tra bydd incwm Premiwm y Dreth Gyngor £0.325m yn well na'r gyllideb. Y rhagolwg refeniw presennol ar gyfer 2023/24 yw gorwariant o £0.364m, ac mae hyn yn cyfateb i 0.21% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r gwahaniaethau sylweddol (tua £100k neu fwy):-

**Tabl 1**

| | **(Tan) / Gorwariant £'000** | **%** |
|---|---|---|
| Addysg Ganolog | (289) | (5.3) |
| Oedolion | 986 | 2.8 |
| Gwasanaethau Plant | 1,072 | 8.2 |
| Gwastraff | (200) | (1.9) |
| Priffyrdd | (206) | (2.6) |
| TGCh | (283) | (6.7) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (159) | (5.8) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (557) | (21.3) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – yswiriant, costau cyfalaf pensiynau a dyledion drwg | 400 | 0.0 |
| Arall (cyfanswm y gwahaniaethau gwerth llai na £100k) | (190) | (0.0) |
| **Cyfanswm y Gwahaniaethau - gor / (tan)wariant (heb gynnwys arian cyllido)** | **(574)** | **(0.4)** |

## 3. Esboniad am y Gwahaniaethau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod y gyllideb ar gyfer ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Erbyn hyn, mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £6.716m, o gymharu â £7.827m ar 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae ysgolion wedi derbyn grantiau yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol i ddelio gydag effaith y pandemig. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae ysgolion yn mynd yn ôl i 'fusnes fel arfer' a rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn gostwng yn sylweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Mae ysgolion wedi amcangyfrif y bydd £2.82m o'r balansau'n cael eu defnyddio i gydbwyso cyllideb refeniw 2023/24.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd tanwariant o £167k (4.38%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 2. Rhagwelir tanwariant o £289k (5.29%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae nifer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd yn tan a gorwario o fewn y Gwasanaeth. Mae'r newidiadau mwyaf sylweddol o gymharu â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1 yn cael eu rhestru isod:-

- Cludiant Ysgol (Tacsis a Bysiau) – rhagwelir tanwariant o £85k. Mae hyn ychydig yn fwy na'r swm o £76k a nodwyd yn y chwarter blaenorol. Y prif reswm am hyn yw bod rhai contractau wedi dod i ben ac mae contractau newydd ar waith.

- Roedd llai o alw ar y gyllideb lleoliadau all-sirol yn 2022/23 ac mae hyn wedi parhau yn 2023/24. Rhagwelir tanwariant o £92k, sef cynnydd o £21k o gymharu â'r chwarter cyntaf. Disgyblion yn dychwelyd i addysg prif lif yw'r rheswm am hyn.

- Mae Eithriadau Cynradd yn bennawd sy'n dal cyllidebau amrywiol nad ydynt yn cael eu datganoli i ysgolion ond maent yn ymwneud â'r sector ysgolion cynradd. Yn ystod chwarter 1, rhagwelwyd tanwariant o £16k. Fodd bynnag, wedi i staff wneud gwaith mewn ymateb i'r newid yn y canllawiau ar gyfer delio gyda choncrit RAAC mewn dwy ysgol uwchradd, ni fydd y gyllideb trwsio a chynnal a chadw'n cael ei defnyddio'n llawn. Mae'r holl dai ysgolion cynradd wedi eu gwerthu bellach, felly, bydd tanwariant o £17k yn y maes hwn. Derbyniwyd ad-daliad sylweddol ar fil trydan hefyd. Gyda'i gilydd, mae'n golygu fod tanwariant o £66k yn cael ei ragweld erbyn hyn.

- Roedd yr adroddiad chwarter 1 yn nodi gorwariant o £30k yn y gyllideb Eithriadau Uwchradd ond, erbyn hyn, y sefyllfa yw tanwariant o £2k. Ni fydd y gyllideb trwsio a chynnal a chadw'n cael ei defnyddio'n llawn oherwydd yr angen i ymateb i'r broblem concrit RAAC.

- Mae'r rhagolwg ar gyfer y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar wedi newid o danwariant o £30k yn chwarter 1 i danwariant o £66k yn chwarter 2. Y rheswm am hyn yw bod y Cynllun Cyfeirio yn cael ei gynnwys o dan y ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd erbyn hyn.

#### 3.1.4 Diwylliant

**3.1.4.1** Roedd tanwariant o £63k (9.08%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £18k (1.30%) ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr adroddiad chwarter 1 yn rhagweld gorwariant o £46k, a'r rheswm pennaf am y gwahaniaeth o £64k o un cyfnod adrodd i'r nesaf , yn bennaf, yw'r broses ailstrwythuro sy'n mynd rhagddi yn y Gwasanaeth Archifau, sef swm o £40k. Rhagwelir gorwariant o £125k ar Oriel Ynys Môn, ac mae hyn yn well na'r swm o £130k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1. Y rhagolwg ar gyfer y gwasanaeth Llyfrgelloedd yw tanwariant £78k, o gymharu â thanwariant £59k yn chwarter 1. Yn bennaf, mae hyn oherwydd swyddi gweigion ac ni ddefnyddiwyd y cyllidebau staff dros dro yn llawn. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys yr ad-daliad Trethi Busnes a dderbyniwyd ar gyfer Oriel Ynys Môn gan ei fod yn cael ei drin fel trafodyn corfforaethol yn hytrach na'i roi i'r gwasanaeth.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £639k (3.99%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £986k (2.80%) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn £545k yn well na'r gorwariant o £1.531m a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1.

**3.2.2** Mae'r elfennau yn y gwahaniaeth yn yr alldro yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Dadanosddiad o'r Sefyllfa a Ragwelir ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion ar Ddiwedd y Flwyddyn 2023/24**

| Gwasanaeth | Dadansoddiad o Incwm / Gwariant | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Preswyl | Nyrsio | Gofal Cartref | Gofal Dydd | Llety â Chymorth | Staffio | Arall | Grantiau a Ddefnyddiwyd | CYFANSWM |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Yr Henoed | 335 | (178) | 255 | 0 | 0 | 148 | (39) | (20) | **501** |
| Anableddau Corfforol | 410 | (21) | 228 | 0 | 0 | 3 | 8 | (332) | **296** |
| Anableddau Dysgu | 264 | 0 | (42) | 165 | 614 | (3) | (122) | (476) | **400** |
| Iechyd Meddwl | 470 | 0 | 44 | 0 | 93 | (64) | 7 | (332) | **218** |
| Uned Ddarparu – Rheoli a Staffio | 352 | 0 | (696) | (158) | (43) | (170) | 5 | (17) | **(727)** |
| Uned Ddarparu - Incwm | 216 | 0 | 0 | 82 | 0 | 0 | 0 | 0 | **298** |
| **CYFANSWM** | **2,047** | **(199)** | **(211)** | **89** | **664** | **(86)** | **(141)** | **(1,177)** | **986** |

**3.2.3** Mae'r rhan fwyaf o'r gwahaniaeth o gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf i'w weld ym maes Anableddau Corfforol, lle mae'r gorwariant o £516k a ragwelwyd wedi gostwng i orwariant o £296k, ac Anableddau Dysgu, lle mae'r gorwariant a ragwelwyd wedi gostwng o £744k i £400k.

**3.2.4** Gellir priodoli'r prif wahaniaeth ym maes Anableddau Corfforol ac Anableddau Dysgu i newidiadau wrth i gleientiaid newydd ddod i mewn i'r gwasanaeth ac wrth i gleientiaid presennol adael, gan fod cost pecynnau gofal unigol yn amrywio. Er bod nifer y cleientiaid yn y gwasanaethau hyn yn isel, gall y gwahaniaeth yng nghost pecynnau gofal fod yn sylweddol, gan arwain at newid mawr yn y rhagolwg.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Mae gorwariant o £779k (9.91%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd yr ail chwarter o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Fodd bynnag, rhagwelir gorwariant o £1,072k (8.24%) ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hyn yn gynnydd o £426k yn y gorwariant a ragwelwyd yn yr adroddiad ar ddiwedd chwarter 1. Er bod mân wahaniaethau yn y rhagolygon o fewn y Gwasanaeth, y ddau brif faes lle gwelwyd newid o un cyfnod adrodd i'r nesaf yw Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol, lle bu cynnydd o £137k yn y tanwariant, o £160k i £297k, oherwydd swyddi gweigion, a chyllidebau plant sy'n derbyn gofal, lle gwelwyd cynnydd o £627k yn y gorwariant a ragwelwyd yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, o £680k i £1,307k.

**3.3.2** Dau leoliad newydd, sy'n costio £617k, a £261k o gostau ychwanegol oherwydd newidiadau i leoliadau presennol sydd bennaf i gyfrif am y gwahaniaeth yn y rhagolwg ar gyfer y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal. Daeth dau leoliad i ben, gan arbed £123k, a bu gostyngiad o £48k yn y rhagolwg ar gyfer lleoliadau Lloches. Roedd gostyngiad o £85k mewn costau maethu.

**3.3.3** Mae disgwyl gorwariant o £139k yn y Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd ac mae hyn ychydig yn fwy na'r £124k a nodwyd yn chwarter 1. Y fenter 'Pan Fydda i'n Barod' sydd i gyfrif am hyn.

**3.3.4** Rhagwelir tanwariant o £112k ar Gefnogaeth Integredig i Deuluoedd, ac mae hyn yn fwy na'r tanwariant o £87k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1. Mae'r gwasanaethau Ieuenctid yn parhau i ragweld tanwariant o £60k.

**3.3.5** Rhagwelir gorwariant o £51k yn y gyllideb Plant ag Anableddau, ac mae hyn £25k yn well na'r gorwariant o £76k a nodwyd yn y cyfnod adrodd blaenorol. Mae'n ymwneud yn bennaf â chleientiaid Taliadau Uniongyrchol.

**3.3.6** Rhagwelir gorwariant o £11k ar y gyllideb "Plant a Theuluoedd Eraill", ac mae hyn £48k yn well na'r ffigwr o £59k a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol 1.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Rhagwelir tanwariant o £64k (4.00%) yn y gwasanaeth hwn ar alldro ac mae hyn yn wahaniaeth o £146k o gymharu â gorwariant o £82k a ragwelwyd yn chwarter 1. Mae'r gwelliant pennaf yn y rhagolwg i'w weld yn y cyllidebau Gweinyddu Tai. Roedd disgwyl gorwariant o £123k ar Weinyddu Tai yn ystod chwarter 1, ond y rhagolwg yn chwarter 2 yw tanwariant o £12k, sef gwahaniaeth o £135k. Trosglwyddo Premiwm y Dreth Gyngor yn ganolog oedd i gyfrif am hyn, yn ogystal ag ailasesu'r gyllideb yr oedd y Gwasanaeth yn ei dal. Mae'r cyllidebau Adnewyddu Tai Sector Preifat bellach yn rhagweld tanwariant o £24k, o gymharu â chyllideb gytbwys yn y chwarter blaenorol, ac oedi cyn recriwtio i'r swydd wag, swyddog tai gwag, yw'r rheswm am hyn. Yn ystod chwarter 2 mae'r rhagolwg ar gyfer Strategaeth Tai hefyd wedi newid o danwariant o £19k i gyllideb gytbwys. Newidiadau staffio a chynnydd mewn gwariant oherwydd yr angen i ddarparu llety i'r gymuned sipsiwn a theithwyr a fu'n ymweld ag Ynys Môn yn ystod yr ail chwarter sydd i gyfrif am hyn.

**3.4.2** Mae nifer y bobl ddigartref sy'n troi at y Cyngor am gymorth yn parhau i fod yn sylweddol uwch nag yn y gorffennol, a hynny am nifer o resymau. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm tebyg a welwyd ledled Cymru wrth i Gynghorau ddelio gyda ffoaduriaid, mwy o fewnfudo, effaith yr argyfwng costau byw a phrinder llety rhent yn y sector preifat. Ar hyn o bryd, mae cyllid grant Llywodraeth Cymru'n cwrdd â'r gost ac mae hyn, yn ogystal â chamau gan y Cyngor i ganfod llety heblaw am wely a brecwast ar gyfer cleientiaid, yn golygu fod gwariant o fewn y cyllid sydd ar gael.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (gan gynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £106k (6.35%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £59k (1.84%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.2** Mae disgwyl tanwariant o £31k ar elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hyn yn well na'r gorwariant o £27k a ragwelwyd yn chwarter 1. Mae hyn, yn rhannol, o ganlyniad i oedi cyn cychwyn y broses recriwtio i lenwi nifer o swyddi gweigion.

**3.5.1.3** Rhagwelir tanwariant o £71k yn yr adain Cyrchfan ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd targedau ar gyfer cofrestru badau dŵr personol wedi cael eu cyflawni'n llawn yn dilyn tymor yr haf, ond dim ond 60% o'r lansiadau a gyflawnwyd hyd yma. Mae casglu ffioedd angori yn well nag yr oedd y llynedd ac mae ar y trywydd iawn i ddychwelyd i'r lefel a welwyd cyn covid. Mae'r gyllideb wardeiniaid traeth tymhorol a'r gyllideb staff yn tanwario ac mae swydd harbwr feistr Porthaethwy yn wag, a daeth y swydd Uwch Swyddog Morwrol yn wag yn ddiweddar.

**3.5.1.4** Ar hyn o bryd, mae'r adain Hamdden yn rhagweld gorwariant o £43k ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â gorwariant o £52k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1. Mae targedau incwm debyd uniongyrchol wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig ac mae'n perfformio'n well na'r targedau incwm ar gyfer rhan gyntaf y flwyddyn ariannol. Serch hynny, mae costau cyflenwadau, gwasanaethau ac ynni wedi codi oherwydd chwyddiant.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Hyd at ddiwedd y cyfnod, mae tanwariant o £808k (45.29%) yn y gwasanaeth hwn o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd, a rhagwelir tanwariant o £159k (5.82%) ar alldro.

**3.5.2.2** Yr alldro a ragwelir ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio yw tanwariant o £63k, ac mae hyn ychydig yn wahanol i'r tanwariant o £80k a ragwelwyd yn yr adroddiad chwarter 1. Swydd a ddaeth yn wag yn yr adain Rheoli Adeiladu sydd i gyfrif am y gwahaniaeth – ond mae ymarfer recriwtio'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac mae'r tanwariant gwerth £33k yn yr adain Weithredu a Chadwraeth yn cael ei ailgyfeirio er mwyn ymestyn contractau dros dro yn y tîm Cynllunio.

**3.5.2.3** Mae'r tanwariant a ragwelwyd yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi cynyddu o £75k yn chwarter 1 i £96k yn chwarter 2. Mae nifer o ffactorau wedi arwain at y cynnydd yn y tanwariant a ragwelir, ond y prif reswm yw bod y Gwasanaeth wedi derbyn cyfraniadau ychwanegol am waith a gyflawnwyd gan staff y gwasanaeth. Roedd disgwyl cyllideb gytbwys ar ddiwedd chwarter 1, yn y Gwasanaeth Cofrestryddion, ond mae incwm yn well na'r proffil oherwydd bod mwy o seremonïau wedi'u cynnal yn dilyn y cyfnod clo oherwydd Covid, er bod y cynnydd hwn yn dechrau arafu erbyn hyn.

**3.5.2.4** I'r gwrthwyneb, mae'r tanwariant o £52k a ragwelwyd yn yr adain Iechyd yr Amgylchedd wedi gostwng i £25k, gan fod yr incwm a gasglwyd yn ystod yr ail chwarter yn is na'r disgwyl. Mae'r cyllidebau Marchnadoedd wedi gorfod newid y rhagolwg hefyd, o gyllideb gytbwys yn chwarter 1 i orwariant o £16k, gan fod yr incwm yn llawer is na'r disgwyl.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd tanwariant o £854k (18.92%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod. Rhagwelir tanwariant o £206k (2.59%) ar ddiwedd y flwyddyn, sef £139k yn llai na'r tanwariant a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1 (£345k). Mân addasiadau ledled yr adran sydd i gyfrif am y gwahaniaeth yn y rhagolwg, ac mae gwaith ychwanegol yn cael ei gyllido o'r incwm Gwaith Stryd ychwanegol a gafodd ei ragweld yn flaenorol.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £165k (3.48%) yn y Gwasanaeth Gwastraff yn ystod y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £200k (1.94%) ar alldro. Mae hyn yn newid sylweddol o gymharu â'r rhagolwg o £490k yn chwarter 1.

**3.6.2.2** Mae'r rhagolwg ar gyfer y gyllideb wedi newid mewn dau faes penodol, sef Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn ac Ailgylchu. Gwelwyd cynnydd cyffredinol mewn costau, yn enwedig y defnydd o danwydd yn ogystal â chynwysyddion. Wrth edrych ar y rhagolwg, gallai rhai meysydd allweddol effeithio ar y sefyllfa derfynol, ac maent yn cynnwys y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru'n gosod dirwy am fethu â chyflawni targedau ailgylchu ar gyfer 2021-22 a 2022-23. Gallai pris deunydd ailgylchu sy'n cael ei werthu ostwng, ac ni roddwyd ffigwr eto ar fater cyflogaeth sydd wedi cael ei setlo.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Mae gorwariant o £16k (5.14%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, a'r rhagolwg yw gorwariant o £59k (3.70%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn newid sylweddol o un cyfnod adrodd i'r nesaf ac mae'r hyn sydd i gyfrif amdano'n cael ei esbonio isod.

**3.6.3.2** Mae cynnydd o £10k yn y tanwariant a ragwelir yn y gwasanaeth glanhau oherwydd oedi cyn hysbysebu swydd wag. Er bod y broses o ailstrwythuro'r adran bron yn gyflawn, mae peth gwaith i'w wneud eto ,ac, er bod rhai swyddi wedi'u llenwi'n llwyddiannus, mae rhai swyddi'n parhau i fod yn wag o fewn y gwasanaeth. Roedd y gyllideb ymgynghorwyr a'r gyllideb arolygon yn rhagweld cyllideb gytbwys ar ddiwedd chwarter 1, ond mae'r gwasanaeth bellach yn defnyddio'r tanwariant ar staffio i gynnal a chwblhau arolygon ar gyflwr adeiladau ysgol.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £45k yn y Gwasanaeth Trawsnewid ar ddiwedd y cyfnod ond dylai'r sefyllfa wella yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol a disgwylir tanwariant o £328k yn y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**3.7.1.1** Roedd gorwariant o £27k (2.98%) yn y swyddogaeth AD yn ystod y cyfnod, o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd, a rhagwelir gorwariant o £13k (0.80%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn £8k yn llai na'r gorwariant o £21k a ragwelwyd yn yr adroddiad chwarter 1. Pan osodir cyllidebau staffio, mae disgwyl y bydd nifer fechan o staff ym mhob gwasanaeth yn gadael ac y bydd swyddi yn wag yn ystod y broses recriwtio, felly, nid yw'r gyllideb staffio yn cyllido 100% o'r costau. Mewn gwasanaethau llai, lle mae trosiant staff yn isel, gall hyn arwain at orwariant ar gyllidebau staffio a dyna'r disgwyl ar gyfer y swyddogaeth AD, er y gall y sefyllfa newid yn ystod gweddill y flwyddyn os yw staff yn gadael eu swyddi presennol. Bydd y gorwariant o £28k a ragwelir yn cael ei wrthbwyso gan danwariant o £15k a ragwelir ar hyfforddiant canolog.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £63k (2.55%) yn yr adain TGCh o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Er hynny, rhagwelir tanwariant o £283k (6.66%) ar alldro, ac mae hyn yn gynnydd o £253k yn y tanwariant ers y cyfnod adrodd diwethaf. Anawsterau parhaus wrth geisio llenwi swyddi gweigion a phroses ailstrwythuro sy'n mynd rhagddi yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb am TGCh mewn ysgolion i'r gwasanaeth sydd i gyfrif am hyn. Gallai oedi pellach gynyddu'r tanwariant ymhellach wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, ond gallai chwyddiant uwch gynyddu'r gorwariant ar feddalwedd.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £45k (8.11%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol yn ystod y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £58k (4.81%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn ychydig yn fwy na'r swm o £44k a nodwyd yn yr adroddiad ar ddiwedd chwarter 1. Swydd wag sydd heb ei llenwi yw'r rheswm am hyn.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd- daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Ar ddiwedd y cyfnod, mae gorwariant o £96k (4.59%) yn y swyddogaeth Adnoddau o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Serch hynny, y rhagolwg ar gyfer alldro yw tanwariant o £26k (0.68%) ac mae hyn ychydig yn llai na'r swm o £30k a nodwyd ar ddiwedd chwarter 1.

**3.8.2** Mae'r mwyafrif o'r costau yn y Gwasanaeth yn gysylltiedig â staff, ac mae rhai swyddi gweigion (Archwilio Mewnol, y Dreth Gyngor a Budd-daliadau) yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth er mwyn sicrhau parhad yn y gwasanaeth ac i ddelio gyda gwaith sydd wedi pentyrru o ganlyniad i gynnydd yn y llwyth gwaith (grantiau costau byw, taliadau prydau ysgol am ddim). Swydd wag yn yr adain Archwilio Mewnol yw'r rheswm fod y rhagolwg wedi newid o chwarter 1 i chwarter 2, ond mae hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol oherwydd bod costau bancio wedi cynyddu. Mae disgwyl tanwariant o £47k yn yr Adain Gaffael oherwydd mentrau prynu, h.y. cyllidebau prynu canolog ac ad-daliadau ar gardiau caffael, ac mae llai o alw am wariant ar rai eitemau o dan gyllidebau caffael canolog gan fod mwy o staff yn gweithio gartref (papur, llungopiwyr, deunydd ysgrifennu a dodrefn).

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant yn y swyddogaeth o £38k (4.00%) yn ystod y cyfnod o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd, a rhagwelir tanwariant o £52k (2.55%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn fwy na'r gorwariant o £11k a nodwyd yn yr adroddiad ar ddiwedd chwarter 1. Swyddi gweigion a newidiadau staffio sydd i gyfrif am hyn.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd tanwariant o £246k (15.31%) yn y swyddogaeth ar ddiwedd y cyfnod o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd, a rhagwelir tanwariant o £557k (21.33%) ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hyn ychydig yn uwch na'r swm o £511k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1.

**3.10.2** Mae Cefnogaeth a Threuliau Aelodau yn rhagweld gorwariant o £7k.

**3.10.3** Mae'r gyllideb ar gyfer cyfraniadau pensiwn eilaidd y cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei dal o dan y gyllideb Corfforaethol a Democrataidd yn y lle cyntaf, ac yna'n cael ei rhyddhau i gyllidebau Gwasanaeth wrth i'r cyfraniadau gael eu talu. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd costau cyfraniadau eilaidd y cyflogwr £716k yn is na'r gyllideb, ond bydd y ffigwr hwn yn gostwng ar ôl cytuno ar y dyfarniad cyflog ac wrth i staff dderbyn eu codiad cyflog, wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2023.

**3.10.4** Rhagwelir gorwariant o £34k ar Gwnsela Staff, ar sail ffigyrau presennol. Mae'r gyllideb yn cael ei harwain gan y galw, felly, bydd y ffigwr yn amrywio yn dibynnu ar yr angen. Yn ogystal, mae disgwyl gorwariant o £43k ar Ffioedd Archwilio a £72k ar ffioedd Crwner.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd gorwariant o £8k (1.99%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £15k (1.91%) ar alldro. Mae hyn yn unol â'r rhagolwg yn chwarter 1, a'r rheswm am hyn yw nad ydi 100% o gostau staff yn cael eu cynnwys yn y gyllideb (fel y mae paragraff 3.7.1.1 uchod yn ei esbonio).

**4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)**

**4.1** Mae disgwyl tanwariant o £82k ar Gyllid Corfforaethol yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roedd cyfanswm y cyllidebau hyn yn £4,265k. Bydd y mwyafrif o'r cyllidebau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae Atodiad C yn cynnwys crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn, ac mae'n dangos fod £336k wedi cael ei drosglwyddo'n barod i gyllidebau a gymeradwywyd.

**4.3** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys tair elfen: y swm a roddir o'r neilltu i gwrdd ag ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf – MRP), llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar falansau arian parod yng nghyfrifon banc a buddsoddiadau eraill y Cyngor. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf, ac yn arbennig yn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn golygu fod angen i'r Cyngor fenthyca llai ac mae hynny, yn ei dro, yn golygu fod costau MRP a llogau yn is. Bu i'r Cyngor elwa ar y cynnydd yn y cyfraddau llog, ac mae buddsoddiadau'n cynhyrchu symiau sylweddol o incwm llog. Rhagwelir y bydd cyfanswm y llog a dderbynnir yn uwch na'r gyllideb o £1m. O ganlyniad rhagwelir tanwariant o £89k yn y gyllideb Cyllido Cyfalaf.

**4.4** Roedd cyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn nifer yr achosion a chynnydd yn y Dreth Gyngor. Ar sail lefel bresennol y dyfarniadau, mae'n bosib y bydd y gyllideb hon yn tanwario, ond mae sefyllfa'n newid wrth i waith tymhorol ddod i ben ac wrth i bobl ddychwelyd i'r system fudd-daliadau a gallai'r cynnydd mewn diweithdra a ragwelir yn ystod y misoedd nesaf hefyd olygu fod mwy o bobl yn derbyn cymorth trwy'r cynllun hwn. Y rhagolwg ar gyfer y chwarter hwn, felly, fel y chwarter diwethaf, yw y bydd y gyllideb yn cydbwyso ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y gyllideb hon yn cael ei monitro'n ofalus yn ystod y trydydd chwarter a chaiff y rhagolwg ei ddiweddaru yn yr adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer chwarter 3.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Mae cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2022. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd a fu a gasglwyd, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Oherwydd y dirwasgiad sydd ar ddod, a chan fod costau byw yn cynyddu, bydd angen monitro'r gyllideb hon yn ofalus yn y dyfodol. Mae disgwyl i incwm y Dreth Gyngor graidd fod £216k yn is na'r gyllideb, ond gall hyn newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Unwaith eto, mae'r premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi wedi gostwng oherwydd bod eiddo wedi trosglwyddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes ond, er bod eiddo wedi cael eu trosglwyddo, mae niferoedd cyffredinol ail gartrefi wedi aros yn weddol gyson ac, oherwydd hynny, rhagwelir gwarged o £325k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2023/24

**6.1** Nid oedd angen i'r gwasanaethau wneud unrhyw arbedion cyllidebol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

## 7. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**7.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £846k ar staff Asiantaeth. Roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol, yn bennaf, o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £279k yn ymwneud â gweithwyr llanw ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £147k ar weithwyr mewn canolfannau ailgylchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad CH.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £237k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi 2023, a chyllidwyd £129k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad D yn cynnwys crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth ynghyd â manylion ychwanegol am y gwariant.

## 8. Casgliad

**8.1** Mae'r rhagolwg ariannol ar ddiwedd yr ail gyfnod ychydig yn well na'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 1 ond, er hynny, mae gorwariant, a fydd yn cael ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor, yn dal i gael ei ragweld. Mae Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr yn ymwybodol o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol a phwysigrwydd ceisio cadw gwariant o fewn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Er na roddwyd unrhyw gyfarwyddyd ffurfiol mewn perthynas â chymryd camau i leihau gwariant (e.e. peidio â recriwtio staff), bydd yr holl wariant yn ystod y misoedd nesaf yn cael ei graffu er mwyn sicrhau mai dim ond gwariant hanfodol sy'n digwydd a bydd swyddi gwag yn cael eu hadolygu cyn penderfynu a ddylai swydd wag gael ei hysbysebu.

**8.2** Mae nifer o faterion a phryderon yn bodoli o hyd a allai newid y rhagolwg yn ystod ail hanner y flwyddyn. Maent yn cynnwys:-

**i.** Effaith dyfarniad cyflog terfynol staff NJC ar gostau er, fel y nodwyd uchod, mae disgwyl i'r costau ychwanegol terfynol fod o fewn y ddarpariaeth ychwanegol yn y gyllideb.

**ii.** Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn achosi pryder penodol, a rhagwelir gorwariant o £2.058m yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Serch hynny, mae'r defnydd o grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn i ostwng y gorwariant yn cuddio'r sefyllfa wirioneddol. Oni bai am y cyllid ychwanegol hwn, byddai'r gorwariant oddeutu £3.5m. Mae'r rhagolwg yn seiliedig ar lefel bresennol y galw, ond mae'r galw'n amrywio yn ystod y flwyddyn a gall newid yn sylweddol e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient dibyniaeth uchel sydd ag anghenion gofal arbenigol gostio rhwng £250k a £500k. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n sicr o olygu fod y sefyllfa'n gwaethygu.

**iii.** Yn y pendraw, bydd yr argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostyngiad mewn incwm mewn gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio, wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi, bydd effaith yr uchod yn cael ei ymgorffori yn yr adroddiadau monitro'r dyfodol wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

**8.3** Bydd y sefyllfa ariannol yn 2023/24 hefyd yn dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2024/25 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a welwyd yn 2023/24 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor, gan gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2024/25. Bydd rheolwyr yn monitro'r sefyllfa ariannol yn ofalus yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol ac efallai y bydd rhaid rhoi mesurau ar waith i arbed costau yn 2023/24, er mwyn cynnal lefel bresennol y cronfeydd clustnodedig a balansau cyffredinol.

**ATODIAD B**

## Alldro Refeniw a Ragwelir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024 - Chwarter 2

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2023/24 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2023/24 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2023/24 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2023/24 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) | 2023/24 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** ***Education, Skills and Young People*** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget* | 56,592 | 27,595 | 27,595 | 0 | 0.00% | 56,592 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog *Central Education* | 5,458 | (3,810) | (3,977) | (167) | 4.38% | 5,169 | (289) | -5.29% | (135) |
| Diwylliant *Culture* | 1,381 | 694 | 631 | (63) | -9.08% | 1,363 | (18) | -1.30% | 46 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** ***Adult Services*** | 35,223 | 16,006 | 16,645 | 639 | 3.99% | 36,209 | 986 | 2.80% | 1,531 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** ***Children's Services*** | 13,013 | 7,861 | 8,640 | 779 | 9.91% | 14,085 | 1,072 | 8.24% | 648 |
| | | | | | | | | | |
| **Tai** ***Housing*** | 1,602 | 1,207 | 1,152 | (55) | -4.56% | 1,538 | (64) | -4.00% | 82 |
| | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** ***Highways, Waste & Property*** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd *Highways* | 7,959 | 4,514 | 3,660 | (854) | -18.92% | 7,753 | (206) | -2.59% | (345) |
| Eiddo *Property* | 1,593 | 311 | 295 | (16) | -5.14% | 1,652 | 59 | 3.70% | (100) |
| Gwastraff *Waste* | 10,334 | 4,736 | 4,571 | (165) | -3.48% | 10,134 | (200) | -1.94% | (490) |
| | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2023/24 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2023/24 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2023/24 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2023/24 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) | 2023/24 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** ***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd *Economic Development* | 3,204 | 1,668 | 1,562 | (106) | -6.35% | 3,145 | (59) | -1.84% | 12 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd *Planning and Public Protection* | 2,733 | 1,784 | 976 | (808) | -45.29% | 2,574 | (159) | -5.82% | (155) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** ***Transformation*** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol *Human Resources* | 1,633 | 905 | 932 | 27 | 2.98% | 1,646 | 13 | 0.80% | 21 |
| TGCh *ICT* | 4,249 | 2,473 | 2,536 | 63 | 2.55% | 3,966 | (283) | -6.66% | (30) |
| Trawsnewid Corfforaethol *Corporate Transformation* | 1,207 | 555 | 510 | (45) | -8.11% | 1,149 | (58) | -4.81% | (44) |
| | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** ***Resources*** | 3,818 | 2,092 | 2,188 | 96 | 4.59% | 3,792 | (26) | -0.68% | (32) |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** ***Council Business*** | 2,039 | 949 | 911 | (38) | -4.00% | 1,987 | (52) | -2.55% | (11) |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** ***Corporate & Democratic costs*** | 2,611 | 1,607 | 1,361 | (246) | -15.31% | 2,054 | (557) | -21.33% | (511) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol** ***Corporate Management*** | 787 | 402 | 410 | 8 | 1.99% | 802 | 15 | 1.91% | 15 |
| - | | | | | | | | | |
| Costau heb gyllideb, ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion/amhariad ar incwm gwasanaethau *Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs/impairment allowances on services income* | | | | | | 400 | 400 | 0.00% | 400 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwasanaethau Total Service Budgets** | 155,436 | 71,549 | 70,598 | (951) | -1.33% | 156,010 | 574 | 0.37% | 902 |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2023/24 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2023/24 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2023/24 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2023/24 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) | 2023/24 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| Ardollau<br>*Levies* | 4,495 | 4,419 | 4,419 | 0 | 0.00% | 4,495 | 0 | 0.00% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol<br>*Discretionary Rate Relief* | 105 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 105 | 0 | 0.00% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf<br>*Capital Financing* | 4,329 | 1,480 | 1,168 | (312) | 0.00% | 4,240 | (89) | -2.06% | (70) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill<br>*General & Other Contingencies* | 4,143 | 4,143 | 2,661 | (1,482) | -35.77% | 2,924 | (1,219) | -29.42% | (12) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol yCyngor<br>Council's General *Reserves* | (3,780) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (2,573) | 1,207 | 0.00% | 0 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol<br>*Support Services contribution HRA* | (800) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (800) | 0 | 0.00% | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd<br>*Benefits Granted* | 6,861 | 748 | 5,291 | 4,543 | 607.35% | 6,861 | 0 | 0.00% | 0 |
| Na ellir ei reoli<br>*Uncontrollable* | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol**<br>***Total Corporate Finance*** | 15,353 | 10,790 | 13,539 | 2,749 | 25.48% | 15,252 | (101) | -0.66% | (82) |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2023/24**<br>***Total 2023/24*** | **170,789** | **82,339** | **84,137** | **1,798** | **2.18%** | **171,262** | **473** | **0.28%** | **820** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyllido**<br>***Funding*** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NDR* | (22,823) | (12,289) | (12,289) | 0 | 0.00% | (22,823) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (44,231) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (44,015) | 216 | -0.49% | 273 |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (2,893) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (3,218) | (325) | 11.23% | (349) |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (100,842) | (54,300) | (54,300) | 0 | 0.00% | (100,842) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2023/24**<br>***Total Funding 2023/24*** | **(170,789)** | **(66,589)** | **(66,589)** | **0** | **0** | **(170,898)** | **(109)** | **0** | **(76)** |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2023/24 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2023/24 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2023/24 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2023/24 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) | 2023/24 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over/(under) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido** ***Total outturn including impact of funding*** | **0** | **15,750** | **17,548** | **1,798** | **11.42%** | **364** | **364** | **0.21%** | **744** |

**Crynodeb o Sefyllfa Alldro Cyllidebau Wrth Gefn 2023/24**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau i Gwasanaethau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br>£ | Wedi Ymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagweledig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 400,737 | - 71,924 | 328,813 | 104,197 | -224,616 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 100,000 | -,61,780 | 38,220 | - | -38,220 | - |
| Chwyddiant cyflog | 2,000,000 | - | 2,000,000 | 2,000,000 | - | - |
| Cynllun Cymorth i Brynu Tai | 1,501,907 | - | 1,501,907 | 1,501,907 | - | - |
| Twf Rhanbarthol – Bwrdd Uchelgais Economiadd | 86,250 | - | 86,250 | 74,070 | -12,180 | -12,180 |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | -202,360 | 137,640 | 137,640 | - | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | - | 50,000 | 50,000 | - | - |
| Gwerth Ardrethol Oriel Ynys Môn | - | - | - | 1,206,584 | -1,206,584 | -1,206,584 |
| **Total General and other Contingencies** | **4,478,894** | **-336,064** | **4,142,830** | **2,661,230** | **-1,481,600** | **-1,218,763** |

**ATODIAD CH**

**Costau Asiantaeth Gorffennaf - Medi 2023**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 5,257 | Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Absenoldeb mamolaeth deiliad swydd. Daeth yr asiantaeth i ben ar 12 Mai, 2023 |
| | -630 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Gorfodi Tai |
| | **4,627** | | | |
| Ysgolion | 22,425 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Athrawon llawn mewn maes arbenigol |
| | **22,425** | | | |
| Gwastraff | 116,999 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol eu hangen dros dymor byr |
| | 30,382 | Cyllideb Graidd Benodol / Cyfraniad Allanol | Dros Dro | Tasgau penodol ar y safle |
| | **147,381** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 188,383 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I llenwi swyddi gwag |
| | **188,383** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 374,092 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I llenwi swyddi gwag |
| | 17,032 | Grant | | I llenwi swyddi gwag |
| | **391,124** | | | |
| Adnoddau | 22,610 | Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Gwaith cymhorthdal |
| | 20,610 | Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | 49,279 | Cronfa Wrth Gefn Clustnodedig | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | **92,499** | | | |
| **Cyfanswm** | **846,439** | | | |

**ATODIAD D**

**Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr Ch2 2023/24**

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasaaneth** | **Chw 1 £** | **Chw 2 £** | **Cyfanwm 2023/24 £** |
| Addysg Canolog | 4,525 | 8,714 | **13,239** |
| Diwylliant | 0 | 0 | **0** |
| Economaidd ac Adfywio | 101,463 | 176,417 | **277,880** |
| Eiddo | 0 | 0 | **0** |
| Priffydd | 4,727 | 22,227 | **26,954** |
| Ysgolion | 0 | 0 | **0** |
| Gwastraff | 6,236 | 8,885 | **15,121** |
| CRT | 0 | 0 | **0** |
| Tai | 0 | 0 | **0** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 0 | **0** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 5,365 | 2,466 | **7,831** |
| Busnes y Cyngor | 14,995 | 18,696 | **33,690** |
| Adnoddau | 9,970 | 0 | **9,970** |
| | | | |
| **Cyfamswm** | **147,280** | **237,405** | **384,685** |
| Cyllidwyd gan: | | | |
| Cyllideb graidd | 44,046 | 103,980 | **148,026** |
| Grant | 5,227 | 73,435 | **78,662** |
| Cyfraniad Allanol | 82,524 | 55,473 | **137,997** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 15,484 | 4,517 | **20,001** |
| **Cyfanswm** | **147,280** | **237,405** | **384,685** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **28 TACHWEDD 2023** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2023/24 – CHWARTER 2** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** E-bost: | **JEMMA ROBINSON** **JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **AMHERTHNASOL** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn chwarter 2.
- Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £7.319m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid diwygiedig, yn unol ag Atodiad C, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf o £60.018m ar gyfer 2023/24.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

## D – A yw'r penderfyniad hwn yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Gosod y gyllideb gyfalaf flynyddol.

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi edrych ar yr adroddiad ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth ac ystyriwyd ei sylwadau. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

## E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol i ganiatáu'r Cyngor gwrdd â'r amcanion hir dymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o’r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau ICF, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i’r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllid ar gyfer prosiectau wedi’i gytuno a’i gynllunio gyda sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru yn arbennig. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor a’r Rhaglen Gyfalaf 2023/24 wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| 5 | **Nodwch unrhyw effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldeb a’r Gymraeg** | Mae rhai o’r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. mynediad i ysgolion i’r anabl, y grant cyfleusterau i’r anabl. Nid oes unrhyw effaith ar agenda’r iaith Gymraeg. |

## F - Atodiadau:

Atodiad A – Adroddiad Monitro’r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 2023/24
Atodiad B – Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant a Ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn
Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau’r broses gosod cyllideb

## FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- Cyllideb Gyfalaf 2023/24, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 09 Mawrth 2023;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2022/23, a gyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn ar 27 Mehefin 2023; a
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf, Chwarter 1 2023/24, a gyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn ar 26 Medi 2023.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £24.405m ar gyfer 2023/24, a rhaglen gyfalaf o £13.557m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £13.477m gael ei ddwyn ymlaen o 2022/23, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £33.532m, a £17.907m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, yn ogystal ag addasu cyllid, a daw hyn i gyfanswm o £7.319m. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo swm ychwanegol o £1.26m ar gyfer cynllun o dan y CRT hefyd. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 i £60.018m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

| Cyllidir gan: | Cyllideb wreiddiol 2023/24 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad fel a gymeradwywyd yn yr alldro Ch4 2022/23 £'000 | Cynnydd yn y CRT a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym Mehefin 2023 £'000 | Cynlluniau ychwanegol / addasiadau ers gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant | 22,367 | 2,909 | | 9,953 | **35,229** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,077 | 3,294 | | 2,129 | **8,500** |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 2,797 | 38 | | (2,797) | **38** |
| Cyfraniad Refeniw | 9,221 | 3,936 | 1,260 | (2,782) | **11,635** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 | 443 | | (500) | **443** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | | 2,780 | | 1,316 | **4,096** |
| Benthyciad | | 77 | | | **77** |
| **CYFANSWM** | **37,962** | **13,477** | **1,260** | **7,319** | **60,018** |

Gweler Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau'r broses gosod cyllideb.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2023/24

**2.1** Mae'r tabl isod yn nodi gwariant cyfalaf hyd at 30 Medi 2023, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Medi 2023 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi'i Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd % | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 1,877 | 510 | 484 | 0 | 484 | 95 | 26 |
| Tai – CRT | 19,988 | 7,003 | 7,943 | 0 | 7,943 | 113 | 40 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,876 | 4,456 | 4,145 | 333 | 4,478 | 100 | 35 |
| Economaidd ac Adfywio | 14,340 | 4,039 | 3,647 | 249 | 3,896 | 96 | 27 |
| Priffyrdd | 8,528 | 2,210 | 2,018 | 188 | 2,206 | 100 | 26 |
| Rheoli Gwastraff | 366 | 30 | 29 | 0 | 29 | 97 | 8 |
| Eiddo | 1,440 | 361 | 204 | 2 | 206 | 57 | 14 |
| Trawsnewid | 391 | 197 | 54 | 140 | 194 | 98 | 50 |
| Gwasanaethau Oedolion | 212 | 194 | 180 | 0 | 180 | 93 | 85 |
| **Cyfanswm** | **60,018** | **19,000** | **18,704** | **912** | **19,616** | **103** | **33** |

| **Cyllidir gan:** | |
|---|---|
| Grant Cyfalaf | 35,229 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 443 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 8,500 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 38 |
| Cyfraniad Refeniw | 11,635 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 4,096 |
| Benthyciad | 77 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **60,018** |

**2.2** Hyd at ddiwedd yr ail chwarter, gwariwyd 97% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol, ond dim ond 29% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 2 wedi ei gwario, ond nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ac mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i'w gwario yn ystod y chwarter nesaf, neu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis Isadeiledd Ymwelwyr, Porth Arfordirol Môn a chaeau chwarae Ysgol Uwchradd Bodedern. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2023/24, ac mae diweddariad arnynt wedi'i gynnwys yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 113% o'r gyllideb a broffiliwyd a 40% o'r gyllideb flynyddol. Pan osodwyd cyllideb 2023/24 a'r cyllid cysylltiedig, roedd grantiau cyllido ar gael nad oeddent yn hysbys pan baratowyd y gyllideb. Mae manylion cyllido'r gyllideb wedi cael eu haddasu yn awr, ynghyd â'r grantiau ychwanegol a dderbyniwyd ers chwarter 1, fel y gwelir yn Atodiad C. Am ragor o wybodaeth ar wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, gweler adroddiad monitro chwarter 2 y gyllideb CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 28 Tachwedd 2023.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt, a rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy –** Mae adeilad newydd Ysgol Corn Hir wedi'i gwblhau. Uned Cyfnod Sylfaen Newydd yn Ysgol y Graig – Mae gwaith ar uwch strwythur yr adeilad cyfan, sef y Ffrâm Bren gyda Phanelau Strwythurol wedi'u Insiwleiddio, wedi'i gwblhau. Mae gwaith gosod bordiau plastr tu mewn i'r adeilad wedi cychwyn, ynghyd â gosod ffenestri. Mae mwy na hanner y gorchudd to wedi'i osod. Mae gwaith ar y meysydd parcio wedi cychwyn ac mae gwaith draenio'n mynd rhagddo. Addaswyd cyllideb ac arian cyllido prosiect Band B Ysgol y Graig i adlewyrchu'r matrics diweddaraf, a rhagwelir tanwariant yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Oedi ar y safle yn gynharach yn y prosiect sydd i gyfrif am hyn.

- **Prosiect Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II y Fenter Treflun Treftadaeth (THI)) -** Derbyniwyd y tendrau cyntaf mewn perthynas â gwelliannau yn Stryd Stanley, ar gyfer pedwar eiddo, ganol mis Medi ac maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd y gwaith yn cychwyn ym mis Tachwedd. Mae prosiectau eraill wedi datblygu i wahanol raddau, hyd at agosáu at gyrraedd y cam tendro. Bydd trafodaethau cadarnhaol gyda Cadw ynglŷn â'r Gaer Rufeinig yn Sant Cybi yn hwyluso'r gwaith dylunio terfynol. Mae cyswllt yn parhau gyda pherchnogion eiddo, cydranddeiliaid a gwasanaethau perthnasol er mwyn datblygu'r gwaith a sicrhau fod prosiectau allweddol yn cychwyn a bod y cyllid yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi** – Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i wireddu nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Cybi. Mae'r cynnydd ar brosiectau sy'n cael eu cyllido ar y cyd drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yn cynnwys:

  - Gwarchod ein Treftadaeth – Mae'r gwaith ar Ffynnon y Wrach, Tŵr Ellin a'r Wylfan uwchben Ynys Lawd wedi'i gwblhau. Mae gwaith ar Ynys Peibio a'r amddiffynfa rhyfel yn Nhrearddur wedi'i gwblhau yn ddiweddar hefyd. Mae'r gwaith ar y Fagnelfa ym Mhenros wedi cychwyn, er bod ychydig o oedi oherwydd y tywydd. Bydd gwaith ar amddiffynfa rhyfel Cofeb Skinner yn dilyn ar ôl cwblhau gwaith ar y Fagnelfa. Dylai'r holl waith fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd Tachwedd 2023.

- **Porth Twristiaid** – Canolfan Ymwelwyr Parc y Morglawdd: Mae'r gwaith wedi'i gwblhau ac agorwyd y Ganolfan Ymwelwyr ym mis Mehefin 2023.

- **Ffyniant Bro** – Yn ystod chwarter 2 mae prosiectau wedi bod yn gweithio ar baratoi dogfennau tendr gydag Ucheldre, Cyngor Tref Caergybi a rhan o'r gwaith parth cyhoeddus sy'n mynd allan i dendr. Bydd Cymunedau'n Gyntaf Môn yn mynd allan i dendr yn ystod chwarter 3. Hawliwyd cyfanswm o £0.768m gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwariant yn chwarter 2, a hawliwyd cyfanswm o £3.3m hyd yma. Derbyniwyd yr ail daliad grant gwerth £1.39m gan Lywodraeth y DU ym mis Gorffennaf, ac mae'r taliad nesaf yn ddyledus ym mis Ionawr 2024. Mae pryderon am gostau cynyddol, ac efallai y bydd rhaid cynnal ymarfer peirianneg gwerth ar y prosiectau ar ôl derbyn y prisiau tendr.

- **Strydoedd Saffach** – Nod y cyllid, a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref trwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yw gostwng troseddau cymdogaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaergybi. Mae'r gwasanaeth Priffyrdd wedi derbyn cyllid i wella goleuadau stryd, darparu camerâu cylch cyfyng ychwanegol ar gyfer Cyngor Tref Caergybi a gwella'r Bont Geltaidd. Cwblhawyd y cyfan o'r gwaith, a daeth y cyllid i ben ym mis Medi 2023.

- **Prosiect Cam 2 Penrhos** – Nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Mae'r gwaith ar yr unedau wedi'i gwblhau. Mae'r holl waith allanol yn gysylltiedig â'r is-orsaf wedi'i gwblhau, ac mae'r unedau'n awr yn derbyn pŵer. Disgwylir i waith comisiynu gael ei gwblhau yn gynnar yn ystod chwarter 3. Mae disgwyl i'r unedau gael eu marchnata yn ystod chwarter 3.

- **Prosiect Cam 3 Penrhos** – Sicrhawyd yn wreiddiol gwerth £3.1m o gyllid o'r ERDF, a dyfarnwyd swm ychwanegol o £0.399m. Mae gwaith wedi parhau ar y safle ac mae'r heriau a grëwyd gan amodau tir andwyol wedi'u datrys, ond mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol ac annisgwyl mewn costau. Mae gwaith ar y safle yn agosáu at gael ei gwblhau, ac mae angen gorffen gwaith mân allanol a mewnol. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau'n ymarferol yn ystod chwarter 3.

- **Prosiect Porth Llangefni -** Mae Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal o Langefni lle bydd saith o blotiau'n cael eu datblygu yn y pen draw.

    - **Unedau Porth (ERDF) –** Mae'r holl unedau wedi cael eu gosod.

    - **Cyd-fenter Porth –** Nod y Cyd-fenter Porth yw cwblhau gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Cwblhawyd gwaith archeolegol ac ecolegol ac mae materion pellach wedi codi. Tri phlot fydd ar gael i'w gwerthu, yn hytrach na 6, oherwydd cyfyngiadau archeolegol. Mae'r holl waith galluogi wedi'i gwblhau. Bydd gwaith marchnata'r plotiau sydd ar gael i'w gwerthu yn cychwyn ar y cyd â'r gwasanaethau eiddo.

- **Cynlluniau Draenio yng Nghaergybi ac Amlwch** – Mae'r astudiaethau hyn yn mynd rhagddynt. Yng Nghaergybi, mae gwaith yn mynd rhagddo ar lunio rhestr fer o opsiynau. Yn Amlwch, datblygwyd rhestr hir o opsiynau. Mae'r gwaith yng Nghaergybi wedi cael ei ohirio tra bod rhagor o archwiliadau safle'n cael eu cynnal i'r mewnlifiadau newydd a ddadorchuddiwyd. Bydd y ddwy astudiaeth yn parhau trwy gydol 2023/24.

- **Gwaith Grant ar Raddfa Fach** – Cymeradwywyd 7 cynllun adeiladu ar gyfer 2023/24. Cafodd un cynllun ei dynnu'n ôl (Capel Moriah, Gwalchmai) yn ddiweddarach oherwydd cymhlethdod y gwaith a'r gost eithafol. Mae gwaith adeiladu ar y cynlluniau sy'n weddill wedi'i gynllunio i gychwyn yn ystod chwarter 2 a 3.

- **Llanfairpwll, Porthaethwy (Achos Busnes Llawn)** - Mae Achos Busnes Llawn Porthaethwy yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, mae gwaith wedi dod i stop ar achos busnes Llanfairpwll oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau.

- **Strwythur Mill Lane** – Mae'r system sensor ddiwygiedig wedi'i rhoi ar waith a bydd yn cael ei monitro yn ystod y gaeaf. Mae arbenigwyr wedi ymweld â'r safle hefyd i asesu'r system sensor.

- **Teithio Llesol** - Sicrhawyd grant gwerth £2.253m gan Lywodraeth Cymru i gynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a llesiant, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus.

    - Mae £0.500m ar gyfer gwaith craidd ar nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau, ac mae'n cynnwys gwaith datblygu ymlaen llaw, gwaith ar raddfa fach a gweithgareddau monitro ac arfarnu.

- **Gwaith Datblygu Ymlaen Llaw**
    - Benllech (dau lwybr ger yr A5025 a gwella'r Sgwâr (A5025)) – roedd gwaith yn ystod chwarter 2 yn cynnwys cynnal Ymgynghoriad dros gyfnod o 6 wythnos a Digwyddiad Ymgynghori (19 Gorffennaf), a pharatowyd adroddiad i lywio'r prif ganfyddiadau a'r camau nesaf.
    - Porthaethwy – Ffordd Pentraeth a'r A5025 i gyfleuster Parcio a Rhannu Llanfairpwll – chwarter 2 – roedd ymateb Llywodraeth Cymru'n datgan y gallai culhau'r gerbytffordd ar Ffordd Pentraeth fod yn risg, yn enwedig oherwydd y sensitifrwydd yn gysylltiedig â Phont Grog Menai. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ohirio am y tro ac ailymwelir ag o ar ôl datrys yr holl faterion sy'n ymwneud â gwytnwch y rhwydwaith ffyrdd. Daethpwyd i gytundeb â Thrafnidiaeth Cymru i ail-broffilio'r gweithgaredd hwn a'i werth ar ddiwedd chwarter 3.
    - Gaerwen (a Llanddaniel) – chwarter 2 – paratowyd drafft terfynol o'r briff – i'w gyhoeddi yn chwarter 3.
    - Y Fali – chwarter 2 – dim cynnydd – bydd briff drafft yn cael ei baratoi yn chwarter 3.
    - Ysgol Syr Thomas Jones a'r Ganolfan Hamdden i Borth Amlwch (yn cynnwys cyswllt i gyflogaeth) – chwarter 2 – Cwblhawyd Astudiaeth WelTAG Cam 3C ac Archwiliad Diogelwch Ffyrdd. Bydd Dyluniadau manwl yn cael eu cwblhau yn ystod chwarter 3 / 4, yn ogystal ag Ymgynghoriad Cyhoeddus.

- **Gwaith Mân (Pecyn Craidd)**
    - Roedd gweithgareddau yn ystod chwarter 2 yn cynnwys dylunio gwelliannau i'r pecyn methiannau difrifol ar gyfer 2023/24.

- **Datblygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol a Gweithgareddau Monitro ac Arfarnu**
    - Mae gweithgareddau yn ystod chwarter 2 yn cynnwys cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo a'u dosbarthu yn Sioe Môn, a chynhyrchu dogfennau ymgynghori.

- £0.250m mewn perthynas â Phrif Gynllun Teithio Llesol Malltraeth - Niwbwrch (A4080) - yn ystod chwarter 2, mae gwaith mân wedi dechrau yn Niwbwrch ar y cysylltiadau llwybrau troed yn y pentref, paratowyd dyluniadau ar gyfer y groesfan ffurfiol ar yr A4080 a Mynediad y Cob a chynhaliwyd trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch unrhyw ganiatâd fydd angen ar eu tir. O ran yr asesiad ehangach o'r coridor cyflawn o Bont Marcwis i Niwbwrch, derbyniwyd cadarnhad mewnol a gan Drafnidiaeth Cymru ynglŷn â sut i symud ymlaen i lunio lluniadau rhagarweiniol, a dyluniadau manwl wedi hynny.

- £0.158m mewn perthynas â Phrif Gynllun Teithio Llesol Llanfairpwll – yn ystod chwarter 2, mae'r dyluniadau wedi cael eu diweddaru'n fewnol ar gyfer yr elfen gwaith mân ar yr A5, er mwyn iddynt gael eu hystyried. O ran y llwybr o Lôn Graig i Lôn Refail, mae angen asesiad ar ochr arall y gerbytffordd (ac mae trafodaethau gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau).

- £1.345m mewn perthynas â Phrif Gynllun Teithio Llesol Caergybi - Trearddur (Metro Gogledd Cymru) – yn ystod chwarter 2, aeth gwaith rhagddo i gwblhau'r dyluniadau a pharatoi ar gyfer cynnal ymgynghoriad, yn ogystal â pharatoi dogfennau tendr.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2022/23)** – Mae'r holl weithgareddau'n gysylltiedig â chyllid 2022/23 wedi cael eu cwblhau. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid grant o gronfa ULEV LlC ar gyfer 2023/24 er mwyn cwblhau'r gwaith (yn unol â'r isod).

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2023/24)** – Dyfarnwyd £0.377m i gynorthwyo i gwblhau gweithgareddau a ddyfarnwyd yn 2022/23 a chyfleusterau gwefru ym Menllech, Canolfan Hamdden Amlwch a phentref y Fali. Yn ystod chwarter 2, cwblhawyd gwaith galluogi yng Nghanolfan Hamdden Caergybi a Sant Tysilio, cwblhawyd safleoedd Rhosneigr a Chemaes, parhau i asesu dogfennau caffael a thendr, paratoi cais cynllunio Hwb Gwefru ym Mhlas Arthur, a sicrhau cysylltiadau gan y Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) yn Amlwch a'r Fali (mae angen trafodaethau pellach gyda SPEN mewn perthynas â Benllech).

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol – gwella isadeiledd** – Cwblhawyd yr ymweliad derbyn safle ym mis Awst 2023 ac mae'r taliad cyfalaf olaf wedi'i dalu. Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol** – Hawliwyd y cyllid grant a oedd yn weddill ar ddiwedd chwarter 1, yn unol ag amodau'r grant, a bydd gweithgareddau pellach yn gysylltiedig â'r cynllun hwn yn ystod chwarter 2 yn cael eu cyllido gan y gwasanaeth. Mae'r holl weithgareddau'n gysylltiedig â'r cynllun hwn wedi'u cwblhau.

- **Grant Gwres Carbon Isel (Swyddfeydd y Cyngor) –** Mae unrhyw waith sylweddol pellach wedi'i ohirio wrth aros am benderfyniad ar y cais cynllunio. Mae gwaith mân wedi parhau ar y safle serch hynny, a chynhaliwyd rhagor o arolygon, yn ogystal ag optimeiddio pympiau gwres a osodwyd ar do'r adeilad a gosod caledwedd rhwydweithio fel bod modd monitro systemau pympiau gwres ffynhonnell aer o bell, yn ogystal ag adnabod unrhyw broblemau. Gan fod y broses gynllunio'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl, mae'n debygol bydd y prosiect bellach yn cael ei gwblhau yn ystod chwarter 4.

- **Llif Oleuadau Plas Arthur** – Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Medi. Cychwynnodd y prosiect ddydd Llun, 9 Hydref, a'r bwriad yw cwblhau'r gwaith erbyn dydd Gwener, 27 Hydref. Roedd y prosiect i fod i orffen yn gynt ond, herwydd tywydd drwg, bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref. Bydd swyddogion Sefydliad Pêl-droed Cymru'n cynnal cyfarfod safle gyda'r Rheolwr Hamdden ddydd Llun, 23 Hydref, i drafod cynnydd.

- **Ysgol Uwchradd Bodedern - Cae 3G -** Dechreuodd y gwaith ganol Medi yn ôl y bwriad ond, oherwydd tywydd drwg, mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn canol mis Tachwedd.

- **Llawr Newydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi** – Sicrhawyd grant gwerth £0.100m gan Chwaraeon Cymru i osod llawr newydd yn y brif neuadd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. Bydd y prosiect hwn yn debyg i'r un a gwblhawyd yn Amlwch ym mis Gorffennaf 2023. Disgwylir i'r prosiect gostio oddeutu £0.140m, a bydd y Cyngor yn cyfrannu £0.140m o gyllid cyfatebol. Mae disgwyl i'r gwaith gychwyn ddechrau Chwefror 2024, ac mae amodau'r grant yn datgan bod rhaid ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024.

- **Porth Arfordirol Môn** – Derbyniwyd dau dendr ym mis Medi 2023, a'u harfarnu yn ôl pris ac ansawdd**.** Dyfarnwyd y gwaith i'r contractwr llwyddiannus ac mae cyfarfod safle wedi'i drefnu ar gyfer canol mis Hydref, a threfnwyd i'r prosiect gychwyn yn gynnar ym mis Tachwedd a'i gwblhau erbyn dechrau Mawrth 2024. Y dyddiad prisio interim cyntaf ar gyfer y gwaith fydd 6 Rhagfyr 2023.

- **Grant Ysgolion Bro (2022/23) –** Derbyniwyd yr holl fidiau tendr ar gyfer nifer o brosiectau, ac mae'r rhan fwyaf o waith arnynt wedi'i gwblhau. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith erbyn diwedd yr Haf 2023 ac, felly, mae disgwyl i'r cyllid gael ei wario'n llawn.

- **Grant Ysgolion Bro (2023/24)** – Dyfarnwyd £0.200m yn 2023/24 i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol, i alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae'r swm a ddyfarnwyd yn gysylltiedig â thair ysgol benodol. Ni chafwyd unrhyw wariant ar y cynllun hwn yn ystod chwarter 2, ond mae disgwyl i'r gyllideb gael ei gwario'n llawn.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2022/23)** – Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith o dan y cynllun hwn yn ystod gwyliau'r Haf 2023. Bydd gweddill y gwaith yn cael ei wneud yn ystod tymor ysgol, rhwng Medi a Thachwedd 2023. Dyrannwyd swm i wneud gwaith yn Ysgol Uwchradd Caergybi, ond nid yw'n bosib gwneud hyn o fewn yr amserlen wreiddiol bellach, ac mae disgwyl tanwariant yn y gyllideb oherwydd hynny. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru i benderfynu a oes modd dwyn y tanwariant ymlaen i'w wario ar weithgareddau eraill, neu a fydd rhaid ei ad-dalu.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2023/24)** – Llwyddwyd i sicrhau £0.478m gan Lywodraeth Cymru i wneud y gorau o amgylcheddau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn gwella hygyrchedd, hyrwyddo arfer cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Mae'r tîm ADY wedi adnabod gwaith ac, er bod disgwyl i'r grant gael ei wario'n llawn, mae hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis medru gwneud y gwaith yn ystod tymor ysgol a bod adnoddau ar gael i gydlynu'r gwaith.

- Dyfarnwyd cyllid gofal cymdeithasol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o nifer o ffrydiau cyllido gwahanol, fel a ganlyn:-

  - **Y Gronfa Gofal Integredig** (ICF) – hawliwyd £0.694m drwy'r ICF mewn blynyddoedd blaenorol a'i ddwyn ymlaen er mwyn caniatáu i brosiectau lithro i'w cwblhau yn 2023/24. Mae'r arian sy'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen yn cynnwys y 4 prosiect isod:-

    - Cartrefi Clyd arbenigol;
    - Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys;
    - Buddsoddiad Cyfeillgar i'r Anabl;
    - Anableddau Dysgu: Galluogi Mynediad.

  Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol yma, a chaiff ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at y cynlluniau gwario uchod sydd wedi eu cynnwys yng nghyllideb y CRT.

  - **Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso** –(IRCF) - Dyfarnwyd £0.244m o gyllid cyfalaf drwy'r IRCF i gyllido:-

    - HWB Llesiant Amlwch (£0.128m) – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hygyrchedd ar gyfer unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Bydd rhywfaint o'r cyllid hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn ardal lesiant a gweithfan achlysurol i staff yr awdurdod lleol a'r trydydd sector er mwyn cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr. Gwariwyd £104k yn 2022/23 a gwariwyd y gweddill (£25k) yn ystod 2023/24 i gwblhau'r prosiect. Roedd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023.

    - Cartrefi Gofal Dementia Gyfeillgar (£0.115m) - Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i greu trydedd uned ddiogel yng nghartref gofal Garreglwyd i gefnogi cynnydd mewn cymorth dementia arbenigol yn lleol. Cychwynnwyd y prosiect ym mis Mehefin 2023 ac mae bellach wedi'i gwblhau.

  - **Y Gronfa Tai â Gofal** (CTG) – Dyfarnwyd cyllid cyfalaf gwerth £1.1m o'r CTG ar gyfer 2022/23 a 2023/24 i gefnogi'r prosiect Cartrefi Clyd a chyllido'r gwaith o adnewyddu dau gartref a buddsoddi, o bosib, mewn uned seibiant dros nos ar un safle. Hawliwyd £0.445m yn 2022/23, a bydd y swm o £0.655m sy'n weddill ar gael yn 2023/24. Mae un eiddo wedi cael ei adnewyddu'n llawn ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr ail eiddo, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith erbyn diwedd Awst 2023. Bydd y trydydd eiddo'n golygu adeiladu uned bwrpasol ac mae'r broses cyn cyflwyno cais cynllunio'n mynd rhagddi yn awr. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd swm o £0.300m yn cael ei hawlio yn 2023/24, gyda chais i'r swm sy'n weddill gael ei ddwyn ymlaen er mwyn cwblhau'r gweithgareddau uchod yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf y cyllidwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2023/24 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30 Medi 2023 £'000 | Rhagolwg hyd at 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 584 | 129 | 548 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 480 | 0 | 480 |
| **Cyfanswm** | **1,064** | **129** | **1,028** |

**3.2.2** Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 yw £1.028m, ac roedd £0.129m wedi'i dderbyn hyd at 30 Medi 2023 (13%).

**3.2.3** Er bod y derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn £1.028m, mae £2.932m o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf, gan fod £1.904m o dderbyniadau cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2022/23 yn y gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y cyfan o'r swm hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei neilltuo i gyllido rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, fel rhan o gyllideb cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gefn glustnodedig Hamdden i gyllido gwelliannau ym maes hamdden, a chyllid a glustnodwyd ar gyfer cynlluniau sydd wedi llithro o'r flwyddyn ddiwethaf.

## 4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2023/24

**4.1** Isod ceir tabl sy'n dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragwelir £'000 | (Tan) / Gorwariant a Ragwelir £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 1,877 | 1,386 | (491) | (26) |
| Tai – CRT | 19,988 | 21,878 | 1,890 | 9 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,876 | 11,368 | (1,508) | (12) |
| Economaidd ac Adfywio | 14,340 | 13,801 | (539) | (4) |
| Priffyrdd | 8,528 | 8,053 | (475) | (6) |
| Rheoli Gwastraff | 366 | 77 | (289) | (79) |
| Eiddo | 1,440 | 1,143 | (297) | (21) |
| Trawsnewid | 391 | 391 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | 212 | 212 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **60,018** | **58,309** | **(1,709)** | **(3)** |
| **Cyllidir Gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragwelir £'000** | **Amrywiant £'000** | **Amrywiant %** |
| Grant Cyfalaf | 35,229 | 33,774 | (1,455) | (4) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 443 | 233 | (210) | (47) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 8,500 | 7,210 | (1,290) | (15) |
| Benthyca Di gefnogaeth | 38 | 38 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Refeniw | 11,635 | 13,525 | 1,890 | 16 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 4,096 | 3,452 | (644) | (16) |
| Benthyciad | 77 | 77 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **60,018** | **58,309** | **(1,709)** | **(3)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £1.709m, gyda'r posibilrwydd y bydd yn llithro i raglen gyfalaf 2024/25. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

Rhagwelir gorwariant o £1.890m yn y CRT, ac mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn yr adroddiad monitro'r gyllideb CRT ar gyfer chwarter 2, a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 28 Tachwedd 2023.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol yn cael ei grynhoi isod:-

### Dysgu Gydol Oes

Rhagwelir tanwariant ar addasu adeiladau addysg ar gyfer yr anabl. Mae'r ffaith fod y Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gael yn golygu fod llawer o'r gwaith y byddid wedi ei gyllido o'r gyllideb hon yn arferol yn cael ei gyllido gan gyllid grant. Gofynnwyd am gael trosglwyddo'r gyllideb hon i 2024/25, gan fod arolygon yn cael eu cynnal ar adeiladau ysgol ac maent yn debygol o ddatgelu gwaith angenrheidiol sydd angen ei wneud, ac nid oes sicrwydd y bydd grantiau ADY ar gael yn y dyfodol.

Rhagwelir tanwariant hefyd mewn perthynas â'r Cynllun Diogelwch Ysgolion. Oherwydd sgôp y gwaith ar gyfer y gyllideb sy'n weddill a'r broses gynllunio y mae'n rhaid ei dilyn, rhagwelir na fydd modd gwneud y gwaith tan Haf 2024 ac, felly, gofynnir am gael dwyn ymlaen unrhyw danwariant yn y gyllideb hon i 2024/25 er mwyn gwneud y gwaith angenrheidiol.

Rhagwelir bellach y bydd tanwariant ar waith cyfalaf mewn adeiladau ysgol. Mae capasiti staff wedi cael ei flaenoriaethu a'i ailgyfeirio i ddelio gyda'r sefyllfa'n gysylltiedig â RAAC mewn ysgolion, ac i wireddu gwaith adeiladu ychwanegol a gyllidir gan grant ar Adeiladau Addysg ac Adeiladau Eraill, a rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith sy'n cael ei cyllido gan grantiau oherwydd yr amodau grant. Mae ymgynghorwyr allanol yn cael eu defnyddio i ddarparu rhywfaint o gapasiti ychwanegol, ond mae'r costau'n sylweddol ac nid dyma'r ateb a ffafrir gan y Swyddogaeth Eiddo. Gofynnir ar hyn o bryd bod unrhyw danwariant yn y gyllideb hon yn cael ei ddwyn ymlaen i 2024/25 er mwyn gwneud unrhyw waith ychwanegol cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**Priffyrdd**
Mae'r tanwariant a ragwelir yn y cynlluniau Priffyrdd yn gysylltiedig â chynlluniau llifogydd amrywiol, yn bennaf am eu bod yn pontio dwy flwyddyn ariannol a bydd rhai ohonynt yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Bydd y cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf hefyd, fel y disgrifir uchod, ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.

**Eiddo**
Ni fydd cyllideb y cynllun Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn, ac amcangyfrifir na fydd unrhyw wariant o'r gyllideb hon yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, heblaw am ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer Cynllun Porth Arfordirol Môn, fel y nodwyd uchod. Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau cyhoeddus, a bydd hynny'n rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Rhagwelir hefyd y gallai cyllid grant pellach fod ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus, a byddai modd defnyddio rhan o'r gyllideb hon, eto, fel cyllid cyfatebol os cyfyd y cyfle.

**Rheoli Gwastraff**
Ni fydd y gyllideb ar gyfer Offer Ailgylchu'n cael ei wario'n llawn, a rhagwelir tanwariant. Mae'r gwasanaeth wedi adolygu a blaenoriaethu gwariant cyfalaf, yn unol â'u strategaeth a'r cynllun ariannol 5 mlynedd, ac maent yn caffael pedair eitem peiriannau a pheirianwaith. Er hynny, mae'r cyfnod arweiniol posib yn dilyn dyfarnu'r tendrau llwyddiannus yn golygu nad yw'r peiriannau a'r peirianwaith yn debygol o gael eu cyflenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r cyllid wedi'i ymrwymo'n llawn er hynny.

**Economaidd ac Adfywio**
Mae Cynllun Adfywio Caergybi (Cam II THI) bellach yn rhagweld tanwariant yn erbyn y gyllideb ar ddiwedd chwarter 2. Mae'r gwariant wedi arafu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a rhagwelir y bydd mwy o wariant yn ystod chwarter 4 wrth i waith ar y prosiectau llai gychwyn ar y safleoedd, tra bydd y prosiectau mwy yn parhau i gael eu datblygu oherwydd eu maint a'u cymhlethdod. Bydd y mwyafrif o'r gwariant, felly'n digwydd yn 2024/25 mewn gwirionedd.

Mae'r cynllun Isadeiledd Morwrol yn rhagweld tanwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a hynny oherwydd y trafodaethau diweddar gyda RWE ynghylch y defnydd posib, gan olygu fod rhaid newid y dyluniad unwaith eto. Mae'r cynllun yn cael ei ail-ddylunio ar hyn o bryd ac, oherwydd yr amseru, mae cais i ddwyn y gyllideb ymlaen i 2024/25 er mwyn cwblhau'r cynllun.

Ni fydd y gyllideb ar gyfer camerâu gorfodaeth ar lithrfa Porth y Wrach yn cael ei gwario yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ac mae'r gwasanaeth yn ailasesu'r angen am y gyllideb.

**4.3** Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 yw £149.899m, sef y gofyn sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae benthyca allanol yn £123.608m, gan olygu, yn ei hanfod, bod angen i'r Awdurdod fenthyg £26.291m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf bresennol. Os caiff y cyllid hwn ei fenthyca'n allanol, ni fydd yr Awdurdod yn mynd tu hwnt i'r terfynau benthyca a gymeradwywyd, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 (Atodiad 11).

## 5. <u>BLYNYDDOEDD Y DYFODOL</u>

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2023/24 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ddaw i law. Disgwylir y bydd rhaglen gyfalaf 2024/25 yn dilyn yr un egwyddor, gyda'r grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido adnewyddu cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor 2022 – 2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Dengys y canlyniadau ar ddiwedd chwarter 2, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir, fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Er bod disgwyl i rai prosiectau danwario ar hyn o bryd, rhaid nodi fod y cyllidebau wedi cael eu hymrwymo a bod gofyn amdanynt, a gofynnir i'r cynlluniau hyn lithro i 2024/25 er mwyn eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £1.028m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2023/24 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiant i'r Proffil (£) | Cyllideb a Broffiliwyd wedi ei wario (%) | Cyllideb Flynyddol wedi ei wario (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Gor / Tanwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol Tai** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 1,215,948 | 500,000 | 476,941 | 0 | 476,941 | (23,059) | 95 | 39 | 1,215,948 | 0 | 0 |
| Grant Galluogi | 139,786 | 10,000 | 6,612 | 0 | 6,612 | (3,388) | 66 | 5 | 139,786 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 490,841 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (490,841) | (100) |
| Tai Fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,877,225** | **510,000** | **483,553** | **0** | **483,553** | **(26,447)** | **95** | **26** | **1,386,384** | **(490,841)** | **(26)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 1,250,000 | 485,000 | 484,052 | 0 | 484,052 | (948) | 100 | 39 | 1,250,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,450,000 | 1,560,000 | 1,555,848 | 0 | 1,555,848 | (4,152) | 100 | 35 | 4,450,000 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 600,000 | 250,000 | 0 | 0 | 0 | (250,000) | 0 | 0 | 100,000 | (500,000) | (83) |
| Gwaith Amgylcheddol | 700,000 | 160,070 | 110,070 | 0 | 110,070 | (50,000) | 69 | 16 | 600,000 | (100,000) | (14) |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 10,288,000 | 3,346,880 | 4,541,880 | 0 | 4,541,880 | 1,195,000 | 136 | 44 | 12,677,802 | 2,389,802 | 23 |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 400,000 | 208,295 | 258,295 | 0 | 258,295 | 50,000 | 124 | 65 | 500,000 | 100,000 | 25 |
| Risg Tan | 400,000 | 45,000 | 45,120 | 0 | 45,120 | 120 | 100 | 11 | 400,000 | 0 | 0 |
| SATC | 1,900,000 | 947,500 | 947,491 | 0 | 947,491 | (9) | 100 | 50 | 1,900,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **19,988,000** | **7,002,745** | **7,942,755** | **0** | **7,942,755** | **940,010** | **113** | **40** | **21,877,802** | **1,889,802** | **9** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 144,512 | 21,500 | 21,418 | 0 | 21,418 | (82) | 100 | 15 | 21,418 | (123,094) | (85) |
| Adnewyddu Adeiladau Addysg | 2,186,208 | 880,472 | 812,703 | 0 | 812,703 | (67,769) | 92 | 37 | 1,986,208 | (200,000) | (9) |
| Diogelwch Ysgolion | 107,648 | 15,000 | 14,480 | 0 | 14,480 | (520) | 97 | 13 | 33,000 | (74,648) | (69) |
| Grant Cinio Ysgol am Ddim | 600,205 | 250,000 | 223,246 | 0 | 223,246 | (26,754) | 89 | 37 | 600,205 | 0 | 0 |
| Canopíau Allanol | 22,420 | 22,420 | 19,343 | 0 | 19,343 | (3,077) | 86 | 86 | 22,420 | 0 | 0 |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol | 435,677 | 130,000 | 129,075 | 0 | 129,075 | (925) | 99 | 30 | 320,677 | (115,000) | (26) |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24 | 478,225 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 478,225 | 0 | 0 |
| Ysgolion Bro | 450,993 | 350,000 | 353,075 | 0 | 353,075 | 3,075 | 101 | 78 | 450,993 | 0 | 0 |
| Ysgolion Bro 2023/24 | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Ysgol Uwchradd Bodedern – caeau chwarae | 330,000 | 15,000 | 17,081 | 305,699 | 322,780 | 307,780 | 2,152 | 98 | 330,000 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti ar gyfer Gofal Plant (cynllun grant) | 380,000 | 10,000 | 9,769 | 0 | 9,769 | (231) | 98 | 3 | 380,000 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti ar gyfer Gofal Plant (darpariaethau Gofal Plant) | 49,481 | 52,000 | 51,615 | 0 | 51,615 | (385) | 99 | 104 | 52,000 | 2,519 | 5 |
| Uned Gofal Plant y Fali | 850,000 | 10,000 | 9,232 | 0 | 9,232 | (768) | 92 | 1 | 850,000 | 0 | 0 |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 370,000 | 200,000 | 211,023 | 25,668 | 236,691 | 36,691 | 118 | 64 | 370,000 | 0 | 0 |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 6,269,995 | 2,500,000 | 2,272,616 | 1,300 | 2,273,916 | (226,084) | 91 | 36 | 5,273,916 | (996,079) | (16) |
| **CYFANSWM** | **12,875,364** | **4,456,392** | **4,144,675** | **332,667** | **4,477,342** | **20,949** | **100** | **35** | **11,369,062** | **(1,506,302)** | **(12)** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Variance to profile (£) | Cyllideb a Broffiliwyd wedi ei wario (%) | Cyllideb Flynyddol wedi ei wario (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tros / Tan a Ragamcenir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Ystafell Fitrwydd Amlwch | 1,468 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 1,468 | 0 | 0 |
| Canolfan Hamdden Amlwch - Llawr | 75,635 | 75,635 | 75,635 | 0 | 75,635 | (0) | 100 | 100 | 75,635 | (0) | (0) |
| Plas Arthur 3G Llif Oleuadau | 74,514 | 75,000 | 5,125 | 69,389 | 74,514 | (486) | 99 | 100 | 74,514 | 0 | 0 |
| Canolfan Hamdden Caergybi - Llawr | 140,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 140,000 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 50,000 | 5,000 | 3,605 | 0 | 3,605 | (1,395) | 72 | 7 | 50,000 | 0 | 0 |
| Partneriaeth Tirlun Caergybi | 50,000 | 40,000 | 37,077 | 0 | 37,077 | (2,923) | 93 | 74 | 50,000 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 762,000 | 150,000 | 45,581 | 116,844 | 162,425 | 12,425 | 108 | 21 | 400,000 | (362,000) | (48) |
| Parc y Morglawdd | 110,000 | 80,000 | 80,149 | 0 | 80,149 | 149 | 100 | 73 | 110,000 | 0 | 0 |
| Penrhos Cam 2 | 23,345 | 23,345 | 23,345 | 0 | 23,345 | 0 | 100 | 100 | 23,345 | 0 | 0 |
| Penrhos Cam 3 | 2,820,804 | 2,000,000 | 1,938,525 | 30,980 | 1,969,505 | (30,495) | 98 | 70 | 2,820,804 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 122,543 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 122,543 | 0 | 0 |
| Llithfra Porth y Wrach – Camerâu Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (30,000) | (100) |
| Canolfan Gymunedol Newry | 52,289 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 52,289 | 0 | 0 |
| Safle Porth JV | 21,514 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 21,514 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Morwrol | 177,514 | 30,000 | 0 | 28,573 | 28,573 | (1,427) | 95 | 16 | 30,000 | (147,514) | (83) |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 198,930 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 198,930 | 0 | 0 |
| Melin Llynnon | 70,397 | 60,000 | 58,751 | 3,925 | 62,676 | 2,676 | 104 | 89 | 70,397 | 0 | 0 |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,064 | 0 | 0 |
| Porth Arfordir Môn | 313,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 313,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyniant Bro | 9,236,000 | 1,500,000 | 1,379,602 | 0 | 1,379,602 | (120,398) | 92 | 15 | 9,236,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **14,340,017** | **4,038,981** | **3,647,394** | **249,711** | **3,897,105** | **(141,876)** | **96** | **27** | **13,800,503** | **(539,514)** | **(4)** |
| **Priffyrdd** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio peiriannau talu ac arddangos mewn meysydd parcio | 4,533 | 4,533 | 0 | 5,469 | 5,469 | 936 | 121 | 121 | 5,469 | 936 | 21 |
| Cerbydau | 800,408 | 300,000 | 143,253 | 169,540 | 312,793 | 12,793 | 104 | 39 | 800,408 | 0 | 0 |
| Peiriannau Graeanu | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 250,000 | 0 | 0 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 2,500,000 | 1,250,000 | 1,222,833 | 0 | 1,222,833 | (27,167) | 98 | 49 | 2,500,000 | 0 | 0 |
| Cynllun Llifogydd Llanfair | 391,646 | 10,000 | 11,475 | 0 | 11,475 | 1,475 | 115 | 3 | 11,475 | (380,171) | (97) |
| Cynllun Llifogydd Menai – Cynllun Busnes Llawn | 150,771 | 35,000 | 35,000 | 0 | 35,000 | 0 | 100 | 23 | 50,000 | (100,771) | (67) |
| Adeiladu – Y Fali | 13,248 | 1,000 | 630 | 0 | 630 | (370) | 63 | 5 | 13,248 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Cymorth Llifogydd (Cyllid Cyfateb) | 346,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 346,800 | 0 | 0 |
| Mill Lane – NFM | 30,888 | 30,000 | 36,712 | 0 | 36,712 | 6,712 | 122 | 119 | 36,712 | 5,824 | 19 |
| Buddsoddi i Arbed – Cerbydau | 5,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 5,068 | 0 | 0 |
| Gwaith grantiau ar raddfa isel | 728,834 | 40,000 | 37,562 | 0 | 37,562 | (2,438) | 94 | 5 | 728,834 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 2,253,103 | 50,000 | 45,954 | 0 | 45,954 | (4,046) | 92 | 2 | 2,253,103 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwella Isadeiledd Bysiau 2021/22 | 28,014 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 28,014 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwella Isadeiledd Bysiau 2022/23 | 383,825 | 383,825 | 383,825 | 0 | 383,825 | 0 | 100 | 100 | 383,825 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 57,334 | 57,334 | 56,958 | 0 | 56,958 | (376) | 99 | 99 | 56,958 | (376) | (1) |
| Strydoedd Mwy Diogel | 18,000 | 18,000 | 17,100 | 0 | 17,100 | (900) | 95 | 95 | 18,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan 2023/24 | 376,550 | 25,000 | 24,368 | 13,613 | 37,981 | 12,981 | 152 | 10 | 376,550 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Gwefru Codi Tâl Cerbydau Trydan | 189,152 | 5,000 | 3,257 | 0 | 3,257 | (1,743) | 65 | 2 | 189,152 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **8,528,174** | **2,209,692** | **2,018,928** | **188,622** | **2,207,549** | **(2,143)** | **100** | **26** | **8,053,615** | **(474,559)** | **(6)** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Variance to profile (£) | Cyllideb a Broffiliwyd wedi ei wario (%) | Cyllideb Flynyddol wedi ei wario (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tros / Tan a Ragamcenir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Gwaith IVC | 13,595 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,595 | 0 | 0 |
| Offer Ailgylchu | 289,315 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (289,315) | (100) |
| To Gwalchmai | 63,000 | 30,000 | 28,547 | 0 | 28,547 | (1,453) | 95 | 45 | 63,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **365,910** | **30,000** | **28,547** | **0** | **28,547** | **(1,453)** | **95** | **8** | **76,595** | **(289,315)** | **(79)** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Presennol | 1,040,546 | 337,324 | 203,611 | 2,380 | 205,991 | (131,333) | 61 | 20 | 1,040,546 | 0 | 0 |
| Eiddo Buddsoddi i Arbed | 77,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 77,068 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Iseol – Swyddfeydd y Cyngor | 23,900 | 23,900 | 0 | 0 | 0 | (23,900) | 0 | 0 | 23,900 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 298,839 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (298,839) | (100) |
| **CYFANSWM** | **1,440,353** | **361,224** | **203,611** | **2,380** | **205,991** | **(155,233)** | **57** | **14** | **1,141,514** | **(298,839)** | **(21)** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh – Isadeiledd Craidd | 135,278 | 33,820 | 15,734 | 17,140 | 32,874 | (946) | 97 | 24 | 135,278 | 0 | 0 |
| TGCh – Adnewyddu Cyfrifiaduron | 99,456 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 99,456 | 0 | 0 |
| TGCh – Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 43,088 | 50,000 | 18,493 | 28,718 | 47,211 | (2,789) | 94 | 110 | 43,088 | 0 | 0 |
| Hwb TG | 113,471 | 113,471 | 19,474 | 93,998 | 113,471 | 0 | 100 | 100 | 113,471 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **391,293** | **197,291** | **53,700** | **139,856** | **193,556** | **(3,735)** | **98** | **49** | **391,293** | **0** | **0** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac ail-gydwbyso (IRCF) | 175,066 | 170,000 | 169,981 | 0 | 169,981 | (19) | 100 | 97 | 175,066 | 0 | 0 |
| Bryn Hwfa Hwb Cymunedol | 13,155 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,155 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 24,104 | 24,104 | 10,007 | 0 | 10,007 | (14,097) | 42 | 42 | 24,104 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **212,325** | **194,104** | **179,989** | **0** | **179,989** | **(14,115)** | **93** | **85** | **212,325** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **60,018,660** | **19,000,429** | **18,703,152** | **913,235** | **19,616,387** | **615,958** | **103** | **33** | **58,309,092** | **(1,709,568)** | **(3)** |

**ATODIAD C**

**Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu ers gosod y Gyllideb**

| Cynllun | Cyllideb | CYLLIDO | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Grant | Cyfraniad Refeniw | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | Arian Wrth Gefn Cyfalaf | Benthyca a Chefnogaeth | Benthyca Di-gefnogaeth | Arian wrth Gefn Arall |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Ail-wynebu Priffyrdd * | 0 | (1,701,000) | | | | 591,000 | | 1,110,000 |
| Ysgolion Bro | 200,000 | 200,000 | | | | | | |
| Galluogi | 139,786 | 139,786 | | | | | | |
| Teithio Llesol | 2,253,103 | 2,253,103 | | | | | | |
| Mill Lane NFM | (241,640) | (241,640) | | | | | | |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ULEV | 376,550 | 376,550 | | | | | | |
| Y Pethau Pwysig | 250,400 | 250,400 | | | | | | |
| Grantiau Bychain Gwarchod Plant | 380,000 | 380,000 | | | | | | |
| Llifoleuadau Plas Arthur | 51,305 | 51,305 | | | | | | |
| Caeau Chwarae Bodedern | 330,000 | 300,000 | | | | | | 30,000 |
| Parc Morglawdd | 110,000 | 110,000 | | | | | | |
| Strydoedd mwy Diogel | 18,000 | 18,000 | | | | | | |
| Cam 3 | 22,187 | 22,187 | | | | | | |
| Cam 3 | 398,617 | 398,617 | | | | | | |
| Llangefni JV | 21,514 | 21,514 | | | | | | |
| Grantiau graddfa bychain | 606,446 | 606,446 | | | | | | |
| Grantiau graddfa bychain | 47,388 | | | | | | | 47,388 |
| CRT*** | 821,000 | 1,229,000 | (875,945) | | | 467,945 | | |
| ICF | (693,966) | | (226,021) | | | (467,945) | | |
| Corn Hir | 370,000 | 107,328 | | | | 262,672 | | |
| Cerbydau ** | 0 | 58,000 | | (58,000) | | | | |
| Cerbydau Graeanu** | 0 | 150,000 | | (150,000) | | | | |
| Cyllideb TG ** | 0 | 292,000 | | (292,000) | | | | |
| Strwythur Mill Lane | 30,888 | 26,255 | | | 4,633 | | | |
| Ail-gylchu Gwastraff | 70,634 | 70,634 | | | | | | |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24 | 478,225 | 478,225 | | | | | | |
| Uned Gwarchod Plant y Fali | 850,000 | 850,000 | | | | | | |
| To Gwalchmai | 63,000 | | | | | | | 63,000 |
| Canolfan Hamdden Caergybi | 140,000 | 100,000 | | | 36,949 | | | 3,051 |
| Pot Cyfalaf Hamdden | (36,949) | | | | (36,949) | | | |
| Hwb TG | (39,221) | (39,221) | | | | | | |
| Band B | 305,995 | 1,827,497 | | | | 1,275,498 | (2,797,000) | |
| Isadeiledd Bysiau 2022/23 | (4,027) | (61,589) | | | 57,562 | | | |
| CRT | 0 | 1,680,000 | (1,680,000) | | | | | |
| **CYFANSWM** | **7,319,235** | 9,953,397 | (2,781,966) | (500,000) | 62,195 | 2,129,170 | (2,797,000) | 1,253,439 |

*Yn gynwysedig yng nghyllideb 2023/24 mae £1.701m o gyllid o grant cyffredinol cyfalaf ychwanegol. Ar ôl adolygu cyfyngiadau ac amodau'r grant, roedd rhaid ei ddefnyddio yn 2022/23 ac, felly, cafodd y grant ei ddefnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Caiff y cyllid o'r grant a arbedwyd gan yr Awdurdod yma ei ddefnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn 2023/24.

** Ail-ddyranu cyllid o'r hyn oedd wedi ei gyllido'n wreiddiol gan dderbyniadau cyfalaf yn rhaglen 2023/24, i gael ei gyllido gan grant cyfalaf cyffredinol.

*** Yn gynwysedig yng nghyllideb CRT 2023/24, roedd tanamcangyfrif o gyllid grant ac, ynghyd â'r cynnydd angenrheidiol yn y gyllideb, mae'r cyllid nawr wedi cael ei ddiwygio.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **28 TACHWEDD 2023** |
| **Pwnc:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 2 2023/24** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD ADEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151<br>(EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-Bost:** | **CARWYN EDWARDS<br>01248 752699<br>CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amh.** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 2 2023/24.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2023/24.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos cyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £8,044k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yw £19,988k. Mae grantiau a chyllid arall gwerth £6,898k yn gostwng y gyllideb net i £13,090k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £5,046k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol, ac ni ellir trosglwyddo arian o'r cronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa refeniw gwarged / diffyg y CRT ar ddiwedd chwarter 2 yn dangos tanwariant o £600k o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir tanwariant o £553k ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl cynnwys y dyfarniad cyflog a llenwi swyddi gweigion. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.2** Mae gwariant cyfalaf £940k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 2. Mae'r gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn £1,890k yn uwch na'r gyllideb, fel yr eglurir yn Atodiad B isod. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan incwm grant uwch o £1,680k, sy'n arwain at orwariant net o £210k.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £4,702k ar hyn o bryd, £343k yn is na'r gyllideb.



**5. Incwm**

**5.1** Ar ddiwedd chwarter 2 , roedd yr incwm a dderbyniwyd £14k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**5.2** Roedd incwm rhenti £8k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 2. Rydym yn rhagweld y bydd yr incwm £23k yn uwch na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, wrth i eiddo newydd ddod ar gael i'w gosod.

**5.3** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rhent, ffigwr tebyg i'r llynedd. Oherwydd yr ansicrwydd am gyfradd chwyddiant a'i effaith ar yr argyfwng costau byw yn y tymor hir, nid oes newid yn y rhagolwg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd yn cael ei fonitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn a bydd yn cael ei adolygu os yw lefel y dyledion yn awgrymu bod risg fod lefel y dyledion nad ydynt yn cael eu casglu yn cynyddu, a bod y dyledion hynny'n cael eu dileu yn y pendraw.

**6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**6.1** Ar ddiwedd chwarter 2, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £191k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd.

**6.2** Mae gwariant refeniw arall yn dangos tanwariant o £41k yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd, ond disgwylir tanwariant o £53k ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl ystyried effaith y dyfarniad cyflog.

**6.3** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £25k ar ddiwedd chwarter 2. Rydym yn rhagweld tanwariant o £32k erbyn diwedd y flwyddyn, ar ôl ystyried effaith y dyfarniad cyflog.

**6.4** Mae'r pennawd gweinyddu rhenti'n dangos tanwariant o £47k ar ddiwedd chwarter 2. Rydym yn rhagweld tanwariant o £5k ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl cynnwys y dyfarniad cyflog a swydd wag sydd wedi'i llenwi erbyn hyn.

**6.5** Mae'r pennawd Rheoli Ystadau yn dangos tanwariant o £77k ar ddiwedd chwarter 2. Rydym yn rhagweld tanwariant o £93k ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl cynnwys y dyfarniad cyflog.

## 7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**7.1** Mae tanwariant o £331k yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) ar ddiwedd chwarter 2. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys effaith y dyfarniad cyflog, ond nid yw hynny wedi'i gynnwys yn y symiau gwirioneddol gan na chafodd ei gytuno tan yn hwyr ym mis Hydref. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei gwblhau i adolygu'r gofynion cyllidebol ac mae cyllideb fwy realistig wedi cael ei gosod ar gyfer 2023/24. Mae deddfwriaeth newydd wedi dod i rym, ac mae disgwyl i Landlordiaid Tai Cymdeithasol ddarparu gorchuddion llawr addas ar adeg newid tenantiaeth, ac mae £125k wedi cael ei gynnwys yn ein rhagolwg yn sgil y gofyniad hwn.

**7.2** Mae gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhan o'r UCChT £116k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 2. Disgwylir tanwariant o £53k yn y maes gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl cynnwys y dyfarniad cyflog.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir tanwariant o £131k ar Gostau Cyllido Cyfalaf a bydd y llog a dderbynnir £124k yn uwch na'r gyllideb.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Cyfanswm y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yw £19,988k. Mae cyllid grant o £7,885k yn cynnwys:-

| Ffynhonnell | £ |
|---|---:|
| Cronfa Tai a Gofal | 300,000 |
| Grant Trawsnewid Trefi | 250,000 |
| CADW | 121,000 |
| Creu Lleoedd | 250,000 |
| Rhaglen Gyfalaf Llety Dros Dro | 650,000 |
| Grant Tai Cymdeithasol (SHG) | 2,111,000 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,690,000 |
| Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2023/24 | 873,000 |
| Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2022/23 – dygwyd ymlaen | 371,000 |
| Grant Diogelwch Tân | 269,000 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **7,885,000** |

**9.2** Ar ôl caniatáu swm o £693k ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl, rhydd hyn gyllideb gyfalaf net o £11,410k a fydd yn cael ei gyllido drwy'r CRT. Mae dadansoddiad pellach ar gael yn Atodiadau B a C. Roedd y gyllideb wreiddiol ar gyfer cyllid grant yn £6,205k (ac eithrio'r elfen Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), felly, rydym yn rhagweld incwm grant uwch o £1,680k, gan fod y costau cyfalaf ychwanegol yn cael eu cyllido drwy gyllid grant ychwanegol yn bennaf.

**9.3** Gwariant SATC – Mae'r gyllideb o £1,900k yn cael ei rhannu rhwng gwaith a gynlluniwyd i adnewyddu ceginau mewn oddeutu 80 eiddo a gwaith cyfalaf sy'n cael ei arwain gan y galw pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo. Dyfarnwyd contract gwerth £484k ar gyfer gwaith a gynlluniwyd yn ystod chwarter 4 2022/23 ac mae'r Gwasanaeth Tai'n amcangyfrif y bydd y rhan fwyaf o'r gwariant sydd ar ôl yn digwydd yn ystod chwarter 3 2023/24. Mae swm o £1,400k wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith cyfalaf a wneir gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai, yn

bennaf pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo. Mae gwaith SATC yn mynd rhagddo'n dda, a gwariwyd cyfanswm o £947k yn ystod chwarter 2.

**9.4** Gwariant Risg Tân – Bydd y gyllideb gwerth £400k yn cael ei gwario ar gwblhau gwaith ôl-osod systemau llethu tân ym Maes y Coed, Porthaethwy, a Glan Cefni, Llangefni, yn ogystal â gwelliannau yn gysylltiedig ag adrannau rhag tân yn y pedwar bloc o fflatiau uchder canolig sy'n rhan o'r stoc tai. Yn ogystal, mae gwaith cyfalaf yn cynnwys uwchraddio systemau larymau tân a gosod drysau tân newydd. Rhagwelir y caiff y gyllideb ei defnyddio'n llawn yn ystod 2023/24. Mae gwariant hyd yma'n is na'r disgwyl, fodd bynnag, bydd y gwaith adrannau rhag tân yn cael ei gwblhau yn ystod Ch3, ac mae disgwyl i'r gwaith ar y systemau llethu tân gael ei gwblhau yn ystod Ch4.

**9.5** Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus – Roedd y galw am addasiadau canolig a mawr yn parhau'n uchel yn ystod chwarter 2, ac mae gwariant hyd at ddiwedd chwarter 2 yn awgrymu na fydd y gyllideb o £400k yn ddigonol. Rydym yn rhagweld gorwariant o £100k oherwydd bod y galw'n uchel. Mae gwariant ar Addasiadau yn cael ei arwain gan y galw ac, yn nodweddiadol, mae'n cynnwys gosod lifftiau grisiau, cawodydd sydd â mynediad gwastad ac addasu trefniadau mynediad presennol.

**9.6** Gwariant Perfformiad Ynni – Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori â'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth (DNO) cyn gosod paneli Solar Ffotofoltaidd i gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Oherwydd oedi, mae'r gyllideb Perfformiad Ynni wedi gostwng o £1,000k i £600k. Yn anffodus, mae'n parhau i fod yn anodd derbyn cymeradwyaeth gan y DNO i wneud gwaith Solar Ffotofoltaidd mawr oherwydd y gofyniad i atgyfnerthu'r rhwydwaith cyn gosod y system Solar Ffotofoltaidd. Mae'r DNO wedi cychwyn y broses o drefnu i uwchraddio'r rhwydwaith mewn lleoliadau penodol ond, yn anffodus, nid yw'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith uwchraddio'n hysbys ar hyn o bryd. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd £100k yn cael ei wario yn 2023/24, a disgwylir tanwariant o £500k ar y prosiect hwn yn 2023/24. O ganlyniad i ganlyniadau cadarnhaol yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r DNO yn ystod Ch2 a dechrau Ch3, mae'r Gwasanaethau Tai yn rhagweld y byddant yn gallu dechrau ar y gwaith o baratoi dogfennau tendr ar gyfer gosod y systemau Solar Ffotofoltaidd ar draws nifer o ystadau yn ystod Ch3. Mae'n annhebygol y gellir dyfarnu unrhyw gontract cyn chwarter olaf 2023/24, a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar wariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**9.7** Gwariant ar Waith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Yn dilyn dyfarnu contract ar gyfer gwaith Cam 2 ym Mae Cemaes yn ystod chwarter 1, mae'r gyllideb gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd wedi'i hymrwymo'n llawn, ac mae'r gwaith wedi cychwyn ar y safle ym mis

Mehefin. Disgwylir i'r contract hwn, ynghyd â'r gwariant a ymrwymwyd a ddygwyd ymlaen o 2022/23, ddefnyddio'r gyllideb lawn o £4,450k.

**9.8** Gwariant ar Waith Amgylcheddol - Bydd y gyllideb o £700k yn canolbwyntio ar barhau i ddymchwel garejys yn Llangefni a gwelliannau arfaethedig i'r system gwaredu â charthffosiaeth yng Ngharreglefn, er mwyn cydymffurfio â gofynion a bennwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Ar ddiwedd chwarter 1, roeddem wedi ymrwymo i wario £352k ar un cynllun mawr i ddymchwel 30 o garejys ym Mro Tudur, ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae contractwr tymor y Gwasanaethau Priffyrdd yn gweithio ar ddyluniadau manwl ar gyfer trefniadau carthffosiaeth amgen. Mae'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl y bydd y gwaith yn cychwyn ar y safle yn ystod Ch4, ac mae'n rhagweld tanwariant o £100k.

**9.9** Gwariant ar y Contract Gwresogi Canolog – Yn ystod 2023/24, nod y Gwasanaethau Tai yw adnewyddu oddeutu 500 o foeleri. Dyfarnwyd contract ar gyfer y rhaglen adnewyddu boeleri eleni yn ystod chwarter 1. Mae gwariant wedi cynyddu yn ystod chwarter 2 ac mae disgwyl iddo barhau i gynyddu yn chwarter 3, felly, rydym yn rhagweld y bydd y gyllideb o £1,250k yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**9.10** Prynu Eiddo sy'n Bodoli Eisoes a Datblygu eiddo newydd – Yn ystod y chwarter, mae tri datblygiad a oedd ar y gweill wedi mynd rhagddynt yn gynt na'r disgwyl ac mae'r datblygwyr yn awyddus i ddechrau gweithio ar y safleoedd hyn. Er mwyn manteisio ar y cyfle i adeiladu'r cartrefi newydd hyn ac osgoi unrhyw oedi, mae'r gyllideb yn dangos gorwariant ar hyn o bryd, fodd bynnag, gellir hawlio rhywfaint o'r gwariant hwn yn ôl drwy'r Grant Tai Cymdeithasol.

**9.11** Mae'r gorwariant o £1,890k a ragwelir ar wariant cyfalaf yn cael ei wrthbwyso gan incwm grant uwch o £1,680k. Felly, rhagwelir gorwariant o £210k ar wariant cyfalaf. Mae hyn y golygu cynnydd o'r un swm yn y swm sydd i'w gyllido o'r cyfrif refeniw CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido prosiectau sydd wedi eu gohirio tan y flwyddyn nesaf.

## 10. Balans y CRT

**10.1** Roedd balans agoriadol y CRT yn £12,107k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £5,046k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £4,702k yn unig. Mae hyn yn rhoi balans o £7,405k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
| Amherthnasol | | |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D –A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| **4** | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud y penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid, ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| **5** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (mandadol) | Dim sylw |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (mandadol) | Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol) | Dim sylw |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| **7** | Sgriwtini | Amherthnasol |
| **8** | Aelodau Lleol | Mae canlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT yn cael eu hadrodd i'r Panel Sgriwtini Cyllid. |
| **9** | Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd chwarter 2 2023/24
- Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 2 2023/24
- Atodiad C – Cynlluniau cyfalaf Adeiladu Newydd a rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 2 2023/24

**Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2023/53 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2023).

**ATODIAD A**

| *CYFRIF REFENIW TAI 2023/24* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2023/24** | **Cyllideb a broffilwyd hyd at Mis 6** | **Gwirioneddol hyd at Mis 6** | **Amrywiant hyd at Mis 6** | **Rhagolwg Diwedd Blwyddyn** | **Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn** |
| **CYFRIF REFENIW**<br><br>**Incwm** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Aneddau | (20,693,000) | (10,500,000) | (10,507,777) | (7,777) | (20,715,525) | (22,525) |
| Modurdai | (247,000) | (125,922) | (126,061) | (139) | (247,919) | (919) |
| Taliadau Gwasanaeth | (213,070) | (106,536) | (101,465) | 5,071 | (217,651) | (4,581) |
| Arall | (262,100) | (189,000) | (172,282) | 16,718 | (234,970) | 27,130 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 316,000 | 0 | 0 | 0 | 316,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(21,099,170)** | **(10,921,458)** | **(10,907,585)** | **13,873** | **(21,100,065)** | **(895)** |
| **Gwariant heblaw am Waith Trwsio ar Chynal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 241,070 | 120,564 | 95,073 | (25,491) | 209,595 | (31,475) |
| Gweinyddu Rhenti | 543,340 | 290,220 | 243,199 | (47,021) | 538,520 | (4,820) |
| Rheoli Stadau | 644,500 | 326,776 | 249,422 | (77,354) | 551,055 | (93,445) |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,763,630 | 822,337 | 781,600 | (40,737) | 1,710,176 | (53,454) |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **3,192,540** | **1,559,897** | **1,369,295** | **(190,602)** | **3,009,346** | **(183,194)** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) | 5,470,600 | 2,789,904 | 2,459,020 | (330,884) | 5,405,844 | (64,756) |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT) | 1,211,860 | 652,430 | 536,715 | (115,715) | 1,158,371 | (53,489) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 752,320 | 389,196 | 412,277 | 23,081 | 756,362 | 4,042 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **7,434,780** | **3,831,530** | **3,408,012** | **(423,518)** | **7,320,578** | **(114,202)** |

| | Cyllideb Flynyddol 2023/24 | Cyllideb a broffilwyd hyd at Mis 6 | Gwirioneddol hyd at Mis 6 | Amrywiant hyd at Mis 6 | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn | Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 1,742,430 | 0 | 0 | 0 | 1,611,600 | (130,830) |
| Elw a Dderbynnir | (200,000) | 0 | 0 | 0 | (324,000) | (124,000) |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Tai | 100,090 | 0 | 0 | 0 | 100,090 | 0 |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Canolog | 785,550 | 0 | 0 | 0 | 785,550 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **2,428,070** | **0** | **0** | **0** | **2,173,240** | **(254,830)** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **13,055,390** | **5,391,427** | **4,777,307** | **(614,120)** | **12,503,164** | **(552,226)** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(8,043,780)** | **(5,530,031)** | **(6,130,278)** | **(600,247)** | **(8,596,901)** | **(553,121)** |
| | | | | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2023/24 | 19,988,000 | 7,002,745 | 7,942,756 | 940,011 | 21,877,802 | 1,889,802 |
| Cyllid grant | (6,205,000) | 0 | 0 | 0 | (7,885,000) | (1,680,000) |
| Cyfraniadau eraill | (693,460) | 0 | 0 | 0 | (693,460) | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | 13,089,540 | 7,002,745 | 7,942,756 | 940,011 | 13,299,342 | 209,802 |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **5,045,760** | **1,472,714** | **1,812,478** | **339,764** | **4,702,441** | **(343,319)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (12,107,000) | | | | (12,107,000) | 0 |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 5,045,760 | | | | 4,702,441 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(7,061,240)** | **0** | **0** | **0** | **(7,404,559)** | **0** |

**CYLLIDEB CYFALAF REFENIW TAI 2023/24**

**Atodiad B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol 2023/24 £ | Cyllideb a Broffilwyd i Mis 6 £ | Gwirioneddol i Mis 6 £ | Amrywiant i Mis 6 £ | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn £ | Amrywiant Diwedd Blwyddyn £ | Amrywiant a ragwelir ym Mis 3 £ | Newid o Ragolwg Ch1 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | | | |
| Contract Gwresogi Canolog | 1,250,000 | 485,000 | 484,052 | (948) | 1,250,000 | 0 | 0 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw a gynlluniwyd | 4,450,000 | 1,560,000 | 1,555,848 | (4,152) | 4,450,000 | 0 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 600,000 | 250,000 | 0 | (250,000) | 100,000 | (500,000) | (100,000) | (400,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 700,000 | 160,070 | 110,070 | (50,000) | 600,000 | (100,000) | 0 | (100,000) |
| Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygiadau Eiddo Newydd | 10,288,000 | 3,346,880 | 4,541,880 | 1,195,000 | 12,677,802 | 2,389,802 | 0 | 2,389,802 |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 400,000 | 208,295 | 258,295 | 50,000 | 500,000 | 100,000 | 0 | 100,000 |
| Risg Tân | 400,000 | 45,000 | 45,120 | 120 | 400,000 | 0 | 0 | 0 |
| SATC | 1,900,000 | 947,500 | 947,491 | (9) | 1,900,000 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM GWARIANT CYFALAF** | **19,988,000** | **7,002,745** | **7,942,756** | **940,011** | **21,877,802** | **1,889,802** | **(100,000)** | **1,989,802** |

## CYLLIDEB DATBLYGIADAU NEWYDD 2023/24

**ATODIAD C**

| Cynllun | Nifer yr Unedau Ychwanegol | Cyllideb 2023/24 £ | Cyfanswm Gwariant a Ragwelir £ | Amrywiad a Ragwelir ym mis 6 £ | Amrywiant a ragwelir ym Mis 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pentraeth (Clwyd Alyn) | 10 | 2,250,000 | 2,250,000 | 0 | 0 |
| Gofal Ychwanegol Porthaethwy | 55 | 250,000 | 250,000 | 0 | 0 |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | 1,200,000 | 1,200,000 | 0 | 0 |
| Ysgol Llaingoch, Caergybi | 26 | 4,000 | 4,000 | 0 | 0 |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 500,000 | 1,001,500 | 501,500 | 0 |
| Parc y Coed, Llangefni Cyfnod 1 | 12 | 990,000 | 990,000 | 0 | 0 |
| Clwb Cymdeithasol Biwmares | 6 | 408,000 | 437,000 | 29,000 | 0 |
| Adnewyddu 16 Uned | 0 | 750,000 | 1,250,000 | 500,000 | 0 |
| Prynu 16 Uned yn ól | 16 | 1,100,000 | 2,000,000 | 900,000 | 0 |
| Hen Safle Ysgol Niwbwrch | 14 | 500,000 | 250,000 | -250,000 | 0 |
| Hen Safle Ysgol Thomas Ellis | 43 | 50,000 | 22,807 | -27,193 | 0 |
| Parc y Coed, Llangefni Cyfnod 2 | 10 | 1,400,000 | 1,400,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Haulfryn a Chyfnod 2 | 1 | 365,000 | 300,000 | -65,000 | 0 |
| Pen y Coed, Rhostrehwfa | 1 | 482,000 | 482,000 | 0 | 0 |
| Stad y Bryn, Llanfaethlu | 9 | 0 | 400,000 | 400,000 | 0 |
| Garreg Lwyd Road, Caergybi | 8 | 0 | 401,495 | 401,495 | 0 |
| Cynlluniau yn y Cyfnod Cyn Cynllunio | | 39,000 | 39,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm 2023/24** | **238** | **10,288,000** | **12,677,802** | **2,389,802** | **0** |

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **28 TACHWEDD 2023** |
| **Pwnc / Testun:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2024/25** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Tel:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**<br>01248 752601 rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

**1.** Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2024/25, sef **31,241.64** (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o Sylfaen y Dreth Gyngor at y diben yma - Rhan E6).

**2.** Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2024/25 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

**3.** Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561), fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2024/25 sef **33,170.03**, ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---:|
| Amlwch | 1,553.58 |
| Biwmares | 1,128.28 |
| Caergybi | 4,122.23 |
| Llangefni | 2,104.10 |
| Porthaethwy | 1,503.94 |
| Llanddaniel-fab | 376.52 |
| Llanddona | 417.01 |
| Cwm Cadnant | 1,231.69 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,342.23 |
| Llanfihangel Ysceifiog | 714.29 |
| Bodorgan | 483.02 |
| Llangoed | 698.88 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 645.03 |
| Llanidan | 436.75 |
| Rhosyr | 1,061.51 |

| | |
|---|---:|
| Llaneilian | 621.16 |
| Llannerch-y-medd | 541.56 |
| Llaneugrad | 194.77 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 2,038.26 |
| Cylch y Garn | 427.15 |
| Mechell | 592.04 |
| Rhos-y-bol | 488.24 |
| Aberffraw | 316.77 |
| Bodedern | 423.75 |
| Bodffordd | 424.81 |
| Trearddur | 1,492.47 |
| Tref Alaw | 272.44 |
| Llanfachraeth | 238.36 |
| Llanfaelog | 1,439.20 |
| Llanfaethlu | 279.29 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Penmynydd | 252.52 | | Llanfair-yn-Neubwll | 573.51 |
| Pentraeth | 603.97 | | Y Fali | 1,052.48 |
| Moelfre | 692.31 | | Bryngwran | 372.60 |
| Llanbadrig | 708.58 | | Rhoscolyn | 399.54 |
| Llanddyfnan | 523.53 | | Trewalchmai | 381.66 |

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2024/25 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2023 a chrynhoir gan yr Awdurdod dan Ran 22B (7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau, yn ogystal á hefyd newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2024/25.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2023. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 14 Tachwedd 2023, ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 5 Ionawr 2024.

Mae'r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C; mae premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a phremiwm o 100% ar ail gartrefi ar gyfer 2024/25, yn seiliedig ar fwriad y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref 2021 i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi (i'w gadarnhau gan y Pwyllgor Gwaith). Mae'r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar benderfyniad y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018, y bydd ei gynllun lleol cyfredol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau am flynyddoedd dilynol heblaw ei fod yn cael ei newid yn sylweddol. Am 2024/25, dim ond yr uwchraddio arferol i'r budd-daliadau sy'n cael ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU, ond bydd costau oherwydd baich achosion ac / neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

**SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO'R GRANT CYNNAL REFENIW**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (ac sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2024/25. Mae'r cyfanswm yma, sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw, yn eithrio'r addasiadau am bremiymau a'r disgowntiau a roddir gan rhai awdurdodau ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C (nid yw hyn yn effeithio ar Ynys Môn gan na roddir disgowntiau o'r fath). Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 31,241.64 (i'w gymharu â 31,272.36 ar gyfer 2023/24). Mae hyn yn gostyngiad o 0.10%.

**SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU'R DRETH**

Mae'r cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu'r dreth wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy'n parhau i fod yn 1.5% a, hefyd, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 33,170.03. Nodir, felly, bod y ffigyrau a nodir dan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2024/25 at ddiben pennu'r dreth yw 33,170.03. Mae hyn yn cymharu â 32,819.56 am 2023/24 ac yn gynnydd o 1.07%. Mae nifer o ffactorau wedi effeithio ar sylfaen y dreth, yn cynnwys nifer yr eiddo newydd a ragwelir a fydd yn cael eu hychwanegu i'r gofrestr Dreth Gyngor yn 2024/25, nifer yr eithriadau a disgowntiau a roddir a'r nifer a fydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag ac ailgartrefi a chanran y premiwm. Mae cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi, o 75% i 100%, yn 2024/25 wedi arwain at gynnydd sylweddol yn sylfaen y dreth a, heb y cynnydd yng nghanran y premiwn, byddai sylfaen y dreth wedi gostwng 0.51%.

Mae sylfaen y dreth ar gyfer eiddo gwag hirdymor am 2024/25 yn 333.00, o'i gymharu â 311.69 am 2023/24, ac mae hyn o ganlyniad i gynnydd o 14 yn nifer yr eiddo gwag sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag.

Mae sylfaen y dreth ar gyfer ail gartrefi am 2024/25 yn 2,097.42, o'i gymharu â 1,703.21 am 2023/24. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu'r lleihad o 281 yn nifer y tai sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ar hyn o bryd, ond mae cynyddu graddfa'r premiwm o 75% i 100% hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr elfen hon o'r sylfaen dreth.

Mae'r newid yn sylfaen y dreth yn effeithio ar bwynt cychwynnol y Cyngor ar gyfer y gyllideb refeniw am 2024/25, ac fe ymdrinnir â hyn yn fanylach mewn adroddiadau dilynol ar y gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, i grynhoi, bydd y lleihad yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r Dreth Gyngor safonol yn cynhyrchu £44k llai o refeniw (yn seiliedig ar y Dreth Gyngor a godwyd yn 2023/24), ond bydd hyn yn arwain at cynnydd o £45k mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) gan Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer 2023/24 a'r un lefel dybiedig o Dreth Gyngor Band D â 2023/24). Bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo gwag yn arwain at gynnydd o £24k yn yr incwm a gynhyrchir gan y premiwm eiddo gwag, ond bydd y gostyngiad yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ail gartrefi yn cynhyrchu £220k llai o incwm. Bydd cynyddu'r premiwm ail gartrefi o 75% i 100% yn cynhyrchu £742k o gyllid ychwanegol.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i ddosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B, ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol ers hynny. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o dai gwag hirdymor) a hynny am y tro cyntaf, ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.

Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn a gwrthodwyd yr opsiwn.

Bu'r Cyngor llawn, ar 27 Chwefror 2019, bennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar eiddo gwag hirdymor a phremiwm o 75% ar ail gartrefi o'r 1 Ebrill 2023, gyda'r bwriad o gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 100% o 1 Ebrill 2024. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad hynny.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau a phremiymau, ynghyd â phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r modd y cafodd sylfaen y dreth ei gyfrifo yn cymryd i ystyriaeth y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ynghylch caniatáu disgowntiau i ddosbarthiadau penodedig A, B a C, ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.

Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yna a hefyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, wedi pennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar dai gwag hirdymor. Bydd y penderfyniad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 100% ar 1 Ebrill 2024 yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor llawn pan fydd y gyllideb yn cael ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2024.

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | |
|---|---|---|
| Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2024/25. | | |
| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Bydd y penderfyniad yn effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor a bydd goblygiadau'r penderfyniad hwn ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hystyried wrth i broses y gyllideb refeniw fynd rhagddi. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Ddim yn berthnasol. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Ddim yn berthnasol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Byddwn yn ymgynghori â dinasyddion Ynys Môn ar y cynigion ar gyfer y gyllideb maes o law. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Ddim yn berthnasol. |
| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Dim sylw ychwanegol. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylw ychwanegol. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol. |
| **5** | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol. |
| **7** | **Caffael** | Ddim yn berthnasol. |
| **8** | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol. |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A : Cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor Leol 2024/25 | | |
| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** | | |
| Nodiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer arweiniad ar Anheddau Dreth Gyngor (CT1) 2024/25 | | |

**ATODIAD A**

# CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2024/25

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | | 4,650 | 6,640 | 6,741 | 7,111 | 5,391 | 2,654 | 1,039 | 158 | 54 | 34,438 |
| **A.2** | Anheddau sy'n derbyn gostyngiad anabledd | | 9 | 43 | 49 | 94 | 86 | 51 | 11 | 9 | 5 | 357 |
| **A.3** | **Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi'i addasu (gan gymryd i ystyriaeth gostyngiadau anabledd)** | **9** | **4,684** | **6,646** | **6,786** | **7,103** | **5,356** | **2,614** | **1,037** | **154** | **49** | **34,438** |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 5 | 1,897 | 3,533 | 3,872 | 4,368 | 3,599 | 1,879 | 724 | 94 | 29 | 20,000 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 4 | 2,566 | 2,825 | 2,455 | 2,152 | 1,322 | 518 | 184 | 23 | 7 | 12,056 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 0 | 7 | 10 | 15 | 13 | 13 | 8 | 11 | 3 | 2 | 82 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ac eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | 0 | 214 | 278 | 444 | 570 | 422 | 209 | 118 | 34 | 11 | 2,300 |
| **B.4** | **Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy** | **9** | **4,684** | **6,646** | **6,786** | **7,103** | **5,356** | **2,614** | **1,037** | **154** | **49** | **34,438** |
| **B.5** | Holl ddisgowntiau newidiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.6** | Addasiad disgownt am eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.7** | Addasiad premiwm am eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi | 0 | 214 | 278 | 444 | 570 | 422 | 209 | 118 | 34 | 11 | 2,300 |

| Rhan C | CYFRIFIAD O ANHEDDAU TRETHADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C.2 | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 8 | 4,253 | 6,213 | 6,609 | 7,129 | 5,441 | 2,690 | 1,104 | 181 | 57 | |
| C.3 | Cymhareb â Band D | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| C.4 | Cyfwerthoedd Band D (wedi'u talgrynnu i ddau le degol) | 4.44 | 2,835.33 | 4,832.14 | 5,874.44 | 7,128.50 | 6,650.11 | 3,884.83 | 1,839.17 | 361.50 | 133.58 | 33,544.06 |
| C.7 | Cyfanswm anheddau gostyngedig ac eithrio addasiad gwag hirdymor ac ail gartref | 8 | 4,039 | 5,935 | 6,165 | 6,559 | 5,019 | 2,481 | 986 | 147 | 46 | |
| C.8 | Cyfwerthoedd Band D ac eithrio addasiad gwag hirdymor ac ail gartref | 4.44 | 2,692.67 | 4,615.92 | 5,479.78 | 6,558.50 | 6,134.33 | 3,582.94 | 1,642.50 | 293.50 | 107.92 | 31,112.50 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO SYLFAEN Y DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| E.1 | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D (yn unol â C.4) | | | | | | | | | | | 33,544.06 |
| E.2 | Cyfradd gasglu (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.50% |
| E.3 | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 33,040.89 |
| E.4 | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn) | | | | | | | | | | | 129.14 |
| E.5 | **Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth (E.3 + E.4)** | | | | | | | | | | | **33,170.03** |
| E.5b | Anheddau trethadwy gostyngedig ac eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref (yn unol â C.8) | | | | | | | | | | | 31,112.50 |
| E.6 | **100% o Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw (E.5b + E.4)** | | | | | | | | | | | **31,241.64** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **28 Tachwedd, 2023** |
| Pwnc / Testun: | **Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-2028** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cyng. Gary Pritchard** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Ned Michael** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Elliw Llŷr, Rheolwr Polisi, Comisiynu a Strategaeth<br>01248752137<br>ElliwLlyr@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | **Dd/b** |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :

**A1 gymeradwyo'r Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-28.**

**1. Cefndir**

Cafodd y Cynllun Strategol ei adolygu yn dilyn ymgynghoriad gyda pherchnogion tai gwag a sesiynau rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Bydd Partneriaeth Tai Ynys Môn hefyd yn cael eu hymgynghori ar y Cynllun Strategol arfaethedig.

Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gwaith ar gyfer delio gydag eiddo gwag fel rhan o'i hymateb i argymhellion wnaed gan Senedd Cymru ar Bwyllgor Gydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol ddŵad ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Rydym, fel Cyngor, wedi cymryd rhan yn hyn ac yn cefnogi'r pwyslais o ddŵad ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

**2. Llwyddiannau'r Strategaeth flaenorol**

Mae'r Strategaeth flaenorol wedi dod ag 525 o dai gwag wedi dwad nôl i ddefnydd ers 2017 gyda 32 o unedau yn cael eu creu neu ail gyflwyno gan olygu bod cyllideb Treth Cyngor yn cael ei gasglu. Mae'r Cynllun Strategol hefyd wedi galluogi llwyddiannau gyda safleoedd anodd fel cyn Clwb Cymdeithasol, Biwmares, hen Glwb Snwcer yng Nghaergybi a Phlas Alltran, Caergybi.

**3. Trosolwg y Cynllun Strategol**

Bydd y Cynllun Strategol yn gweithio i 4 brif nod o:

1. **Data** – Defnyddio sail tystiolaeth er mwyn targedu adnoddau at eiddo gwag

2. **Cyhoeddusrwydd** - codi ymwybyddiaeth o faterion tai gwag a sut gall perchnogion ddŵad ag eiddo yn ôl i ddefnydd

3. **Darparu cefnogaeth ariannol** – gan weinyddu grantiau / benthyciadau LLC a defnydd o'r Premiwm Treth Cygnor

4. **Gorfodaeth** - I flaenoriaethu tai gwag ar gyfer gweithredu gorfodaeth gan gymryd agwedd Cyngor cyfan i ddelio hefo eiddo gwag

5. **Cyd-weithio** -i ddod ynghyd Gwasanaethau sydd ymdrin â'r eiddo mwyaf problemus

**4. Ymgynghori**

Ymgynghorwyd gyda pherchnogion tai gwag yn ystod Mai- Mehefin er mwyn deall pam fod eiddo yn wag, pa broblemau maent yn eu hwynebu a pha ymyrraeth fyddai yn eu cynorthwyo i ddŵad ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn targedu ein hymyraethau. Trefnwyd digwyddiad (3.10.23)gyda gwasanaethau eraill er mwyn adolygu cynnwys y Cynllun Strategol gyda thimoedd sydd yn allweddol i ddŵad ag eiddo yn ôl i ddefnydd.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Byddai peidio cael Strategaeth i ddelio gyda Thai Gwag yn golygu gwastraff adnodd ar yr Ynys a chynnydd mewn cwynion gan drigolion. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| I sicrhau dynesiad Strategol i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Strategaeth yn gosod cyfeiriad ar gyfer ymateb i dai gwag |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Mae yn annog perchnogion i ddwad a thai gwag yn ôl i ddefnydd, adnodd fyddai yn aros yn segur a chreu cwynion i'r Cyngor |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae gwasanaethau mewnol wedi cael cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Cynllun |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Anfonwyd holiadur at holl berchnogion cartrefi gwag |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler Asesiad Effaith sydd yn nodi effaith positif |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gweler Asesiad Effaith sydd yn cymryd i ystyriaeth rhai all fod yn fregus |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o fewn yr asesiad effaith |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Dd/b |
| 5 | Eiddo | Dd/b |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Dd/b |
| 7 | Caffael | Dd/b |
| 8 | Sgriwtini | Yn ystod Pwyllgor Sgwrtini Corfforaethol 21.11.23 argymhellwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn rhoi cymeradwyaeth |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-28<br>Atodiad 2 Asesiad Effaith Cydraddoldeb<br>Atodiad 3 Asesiad Effaith Iaith Gymraeg |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Ynys Môn
The Isle of Anglesey



# Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-2028

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg /

This document is also available in Welsh.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.anglesey.gov.wales

# Pam bod angen Cynllun Strategol Tai Gwag arnom?

Tudalen 96




Mae tai gwag yn adnodd sydd yn cael ei wastio a all fod yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â phroblemau tai eraill drwy ddarparu llety ychwanegol; gan leihau pwysau ar restrau aros a chynnig cartrefi ar sail tymor byr a hir.

Ar hyn o bryd, gwelir cynnydd yn y pwysau ar y farchnad dai wrth i lai o bobl allu brynu eu cartref eu hunain. Mae rhent yn y sector rhentu preifat hefyd yn parhau i godi.

Nid oes angen gwaith ar bob cartref gwag, er enghraifft, ni fyddai llawer o bwrpas targedu eiddo gwag trafodaethol sy'n wag am reswm dilys. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i eiddo nad ydynt yn achosi niwsans, mewn cyflwr da neu na fyddant yn addas ar gyfer ymdrin â'r angen tai lleol.

**Diben y Cynllun Strategol Tai Gwag yw sicrhau bod nifer yr eiddo gwag yn aros yn isel ac i annog perchnogion i'w defnyddio eto. Mae'n cynnig gwybodaeth ynghylch sut i ddelio ag eiddo gwag.**

Mae'r Cynllun yn ffurfio rhan o amrywiaeth o ddatrysiadau tai fydd yn cynorthwyo i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023-28, gan ganolbwyntio ar agwedd gydlynol a chysylltiedig ar draws partneriaid mewnol ac allanol.

# Cyd-destun Strategol

Bydd y Cynllun Strategol Tai Gwag yn ymateb i:

- Bwerau disgresiwn Deddf Tai (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol weithredu tâl premiwm ar y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo gwag tymor hir a defnyddio hyn tuag at dai fforddiadwy.
- Mae mentrau lleol megis Tai Teg yn cynorthwyo drwy adnabod a dosbarthu eiddo gwag fforddiadwy i'w prynu neu dai rhent canolradd, ac mae'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru.
- Ymateb Llywodraeth Cymru (LlC) i weithio gydag Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael ag eiddo gwag yn dilyn argymhellion adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol, a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd yn Hydref 2019
- Cymorth ar gael i Awdurdodau Lleol i ddelio ag eiddo gwag tymor hir gan Lywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen Gorfodi Tai Gwag. Mae'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y fenter hon ac yn cefnogi'r pwyslais mae LlC yn ei roi ar ddefnyddio eiddo gwag.
- Eiddo gwag fel cyfrannwr i'r economi leol, a gwelwyd enghraifft o hyn rhwng 2022-23 gyda'n Grant Prynwyr Tro Cyntaf yn gweld 68 a fusnesau bach / canolig neu gontractwyr yn elwa o'r cynllun drwy gwblhau gwaith drwy'r grant hwn.



# Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Strategol?

Mae'r cynllun yn cynnig gwybodaeth i randdeiliaid allweddol mewnol ac allanol. Bydd hefyd o ddiddordeb i amrywiaeth o bobl, megis:

- Pobl sy'n cael trafferth dod o hyd i gartref fforddiadwy a diogel i'w rentu neu brynu yn yr ardal maen nhw'n gweithio neu lle cawsant eu magu
- Pobl sy'n byw ar yr un stryd â thŷ gwag yr effeithir ar eu hiechyd corfforol a meddyliol wrth i gyflwr y tŷ ddirywio a dod yn ganolbwynt ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Pobl sydd wedi etifeddu eiddo ac sy'n chwilio am gymorth ymarferol i'w ddefnyddio unwaith eto, ond yn hytrach, maent yn derbyn biliau ar gyfer y dreth gyngor.
- Meysydd gwasanaeth mewnol i hwyluso cydweithio effeithiol



Tudalen 98


# Data Sylfaen




- **35,639 eiddo ar Ynys Môn**
- **612 tŷ gwag***
- **2,591 ail-gartref**
- **876 aelwyd wedi'u cyflwyno'n ddigartref yn 2022-23**
- **69,000 yn byw ar Ynys Môn**

Tudalen 99

Nifer o flynyddoedd lle mae'r eiddo wedi'i gofnodi yn wag




Lleoliadau Eiddo Gwag




*gwybodaeth Gwasanaethau Tai sydd yn cynnwys tai sydd yn derbyn eithriad treth cyngor*

# Cynllun y Cyngor 2023–2028

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.
Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**



'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

## Ein chwe amcan strategol

### Yr Iaith Gymraeg
Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant
Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

### Addysg
Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

### Tai
Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

### Economi
Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd
Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



## Gwerthoedd

### Parch
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.


[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]

# Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a’n hamcanion.

Mae’r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy’n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion a’r weledigaeth strategol.

Tudalen 102




[Council Plan 2023 to 2028 (gov.wales)]


# Prif feysydd blaenoroiaeth

Mae darparu blaenoriaeth strategol, ynghyd â meysyd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym eisiau sicrhau ein bod:

- Yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol ac yn gwella cartrefi a chymunedau (Thema 2 Strategaeth Dai 2022-27 y Cyngor)
- Yn cyfrannu at yr economi leol (Thema 6 Strategaeth Dai 2022-27 y Cyngor)

Tudalen 103



# Data – Defnyddio agwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i dargedu tai gwag





**Pam bod hyn yn bwysig?**

Mae 908 cais ar Gofrestr Tai Cymdeithasol y Cyngor sydd angen tai cymdeithasol addas (fel y nodwyd ym Mawrth 2023).

Gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref, sydd angen llety dros dro fel datrysiad tymor byr ar gyfer eu sefyllfa o ran tai.

Gwella argaeledd llety drwy ddychwelyd eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leddfu'r galw am dai addas a helpu i ysgwyddo'r pwysau tai mae'r Awdurdod Lleol yn ei wynebu.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Mae Deddf  Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud hi'n bosibl i rannu gwybodaeth am eiddo gwag sy'n hwyluso 'r gwaith o flaenoriaethu pa eiddo sydd angen eu targedu.

Drwy barhau i ddiweddaru ein data a'n gohebiaeth ynghylch eiddo gwag, gallwn ddadansoddi nodweddion eiddo gwag tymor hir a thargedu ein hymateb.

Datblygu Matrics Sgorio ar gyfer eiddo gwag. Defnyddir y Matrics Sgorio i atgyfeirio eiddo i gyfarfod Cymhorthfa Tai Gwag lle ystyrir unrhyw ganlyniad posibl a chamau gorfodi.

**Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?**

Defnyddio'r opsiynau sydd ar gael i berchnogion a'u hannog i ddod a'u heiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Hyrwyddo cyfleoedd ariannu er mwyn dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Adrodd yn rheolaidd ar nifer y tai gwag sydd mewn defnydd eto, a pha ymyrraeth a ddefnyddiwyd.

Monitro nifer y Grantiau Rhannu Ecwiti a Phrynwyr Tro Cyntaf sy'n defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor sydd wedi cael ei gymeradwyo bob chwarter.

# Cyhoeddusrwydd- Codi ymwybyddiaeth o dai gwag a sut i'w defnyddio eto



## Pam bod hyn yn bwysig?

Ers 2017, cyngor ac arweiniad sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus ar gyfer dod ag eiddo gwag tymor hir yn ôl mewn defnydd: 56% o gyfanswm nifer yr eiddo gwag.

Y prif resymau fod eiddo'n aros yn wag yw:

- Maent yn cael eu hadnewyddu (33%) neu
- Maent angen gwaith atgyweirio neu adnewyddu (28%).

Mae 33% o eiddo sydd mewn defnydd eto wedi derbyn cymorth ariannol a gynigir gan y Cyngor.


Efallai y bydd perchnogion yn dewis peidio â chymryd rhan gan fod yr eiddo yn breifat, ac nid oes gan y Cyngor hawl i orfodi eiddo o'r fath i'w roi nôl mewn defnydd. Efallai nad ydynt yn ymwybodol neu nad ydynt yn pryderu am yr effeithiau mae'r eiddo yn ei gael ar yr ardal leol ac ar eiddo cyfagos.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol ar gael:

- Canllawiau ar gyfer dod ag eiddo gwag nôl i ddefnydd
- Manylion am gymorth sydd ar gael a sut i fanteisio ar gyllid
- Cynnig grantiau rhannu ecwiti a grantiau eraill ar gyfer eiddo gwag
- Dull ar gyfer adrodd pryderon neu gwynion am eiddo gwag



## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

